# tafod elái

RHAGFYR 2021

Rhif 363

Pris £1


## Dinesydd Da Rhondda Cynon Taf 2021



Mae pentrefwyr Gilfach Goch mor falch fod James Thomas (Beefy's Baps) wedi derbyn gwobr Dinesydd Da Rhondda Cynon Taf.

Mae James yn byw yn Oak Street ac yn gweithio yn Nhonyrefail gyda'i gerbyd bwyd brys enwog. Mae James yn gweithio'n ddi-baid i godi arian tuag at elusennau lleol.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd James yn paratoi ar gyfer ei orymdaith Nadolig gyda help ei deulu. Bydd hwn yn digwydd dros gyfnod o 3 noson. Felly mae'n rhaid fod y tywydd yn ffafriol ac fe fydd James yn cadw llygad barcud ar y rhagolygon cyn penderfynu ar y dyddiadau. Fe fydd pob plentyn dan 11 yn y pentref yn derbyn anrheg siocled ac mae'r plant mor gyffrous ar ôl yr orymdaith llynedd ac mae sibrydion fod lot fwy o hwyl a sbri mynd i fod eleni.

## Cyflwynwyr Newydd 'Cyw'



Mae dau wyneb newydd sbon – Griff Daniels a Cati Rhys – yn camu o flaen y camera i ymuno â thîm cyflwyno Cyw, gwasanaeth S4C i blant meithrin.

Mae Griff Daniels, sy'n 21 oed o Efail Isaf, yn gyn-ddisgybl Ysgol Creigiau ac Ysgol Gyfun Plasmawr. Mae newydd raddio o Brifysgol Lerpwl, lle bu'n astudio Daearyddiaeth. Tra'n y brifysgol, dechreuodd weithio tu ôl i'r llen ar orsaf radio'r brifysgol ac yna cyflwyno rhaglenni.

"Rhwng y sgwennu sgriptiau, cynhyrchu ac ati ar gyfer y rhaglen radio, dyma sydd wedi'n arwain i fod â diddordeb mewn cyflwyno. Dwi'n aelod o fand Wigwam, ac rydym ni wedi bod yn perfformio mewn gwyliau fel y Steddfod ac ati, yn ogystal ag mewn sawl Ysgol Gynradd. Felly pan weles i swydd Cyw yn cael ei hysbysebu, nes i feddwl byddai'n gyfle gwych i gyfuno dau beth dwi wedi mwynhau gwneud, sef cyflwyno a chymryd rhan mewn sioeau byw."

Un sy'n wreiddiol o Gaernarfon, ond bellach yn byw yng Nghaerdydd yw Cati Rhys, sy'n 22 oed. Astudiodd gwrs Perfformio Coleg y Drindod yng Nghaerdydd, ac mae'n un sydd wedi mwynhau perfformio ers yn blentyn bach.

Bydd y ddau yn ymuno ag Elin Haf a Huw Owen i gyflwyno'r gwasanaeth.

**Nadolig Llawen**
**a Blwyddyn Newydd Dda**

Diolch arbennig i'n
Gohebwyr a'n Dosbarthwyr
am gynnal Tafod Elái

**£10**

**Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Gofynnwn i chi fynd i wefan TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.**

*Daw eto haul ar fryn*

**Dathlu canrif yr Urdd yn 2022 - Eisteddfod Tregaron 2022**
**Tafwyl 2022**
**A llu o weithgareddau eraill**

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
21 Ionawr 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



# Diolch i Jayne

Diolch i Jayne Rees am ei gwaith fel Gohebydd Lleol Pontypridd am dros 24 mlynedd. Mae'n bwriadu symud o'r ardal flwyddyn nesaf ac felly am orffen fod yn Ohebydd.

Diolch unwaith eto Jayne am dy gyfraniad arbennig i Tafod Elái.

# Swyddog Cymunedol yr Eisteddfod



Croeso mawr i Katie Hall sy'n ymuno â ni fel Swyddog Cymunedol prosiect Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Mae Katie, sy'n wreiddiol o Aberdâr, wedi cychwyn ers rhai wythnosau ac yn gweithio ar gynllun peilot ar draws yr ardal sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mwy am Katie a'i gwaith yn fuan iawn!

# Merched y Wawr - Cangen y Garth

## Dr Heledd Jones

fydd yn siarad
**nos Fawrth, 7fed o Ragfyr**
**am 7.30 yr hwyr dros zoom**

Bydd Dr Heledd yn siarad am ei gwaith dyngarol gyda'r ceiswyr lloches yn Calais yn ddiweddar.

Anfonir dolen zoom yn nes at y dyddiad.


# Cylch Llyfryddol Caerdydd

Mae'r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf. I dderbyn y ddolen i ymuno â'n cyfarfodydd ar Zoom anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James: JamesEW@caerdydd.ac.uk

***Gwener, 19 Rhagfyr 2021***
Holi Megan Angharad Hunter, enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, am ei nofel arobryn, *tu ôl i'r awyr.*

# Llyfr newydd Nadoligaidd i addysgu plant am ffoaduriaid

Cyhoeddir Cyfrinach Noswyl Nadolig gan Eurgain Haf (Y Lolfa) yn barod at y Nadolig. Yn ogystal â stori hyfryd Nadoligaidd mae i'r gyfrol wers bwysig iawn – sef i fod yn garedig i bawb, o bob cefndir a hil.




Mae Eurgain Haf, sy'n gweithio i'r elusen ryngwladol Achub y Plant, yn aml yn clywed straeon am bobl a phlant yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i adael eu cartrefi a'u gwlad. Nid yw hi'n ddiogel iddyn nhw fyw yno oherwydd gwrthryfel, trais, erledigaeth neu newyn.

Meddai'r awdures:
"Roeddwn yn awyddus i ysgrifennu llyfr am ffoadur i godi ymwybyddiaeth o fywydau plant sy'n gorfod ffoi o'u cartrefi ac o'u cymunedau ac annog sgwrs ehangach am beth allwn ni ei wneud i'w helpu. Mae'n bwysig ceisio deall sefyllfaoedd rhai sy'n llai ffodus na ni a dysgu bod yn garedig."

Yng nghefn y gyfrol mae nodiadau ar gyfer athrawon a rhieni, sy'n cynnig syniadau am rai o'r pethau y gellid eu trafod wrth ddarllen y llyfr.

Mae Cyfrinach Noswyl Nadolig gan Eurgain Haf ar gael nawr!

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 22ain Ionawr. Mae Rhestr Cystadlaethau Llwyfan ar wefan
eisteddfodcaerdydd.cymru
Cysylltwch â
cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru
gydag unrhyw gwestiwn neu ymholiad.
Pob lwc!

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Colli Menna Bassett**

Wyddwn i ddim tan ddiwrnod ei hangladd mai Elizabeth Menna Basett oedd ei henw llawn, ond fel Menna yr oeddem ni fel teulu wedi ei hadnabod ers iddi symyd i fyw i Bentyrch, ac er yn fychan o gorff, 'roedd ei phersonoliaeth fywiog a'i sgwrsio difyr yn llenwi pob twll a chornel pan fyddech yn ei chwmni.

Bu farw ar y 3ydd o Hydref yn 89 mlwydd oed yn ei chartref, "Tre-gôf", Field Terrace, Pentyrch, a hynny yn nghwmni ei thair merch, Sara, Sian a Lynne.

Dyna falch oedd y tair ohonynt iddynt fod wedi ymgynnull gyda'i gilydd ar dir eu gwlad am y tro olaf yn ei chwmni, gan gofio bod Sara a'i theulu yn byw yn Ffrainc, a Lynne a'i theulu hithau yn Awstralia.

Bu'n aelod ffyddlon ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, gan fwynhau'r oedfaon, y Cwrdd Merched a'r gweithgaredd elusennol a gefnogwyd yn flynyddol, boed gyngerdd neu ginio.
Yn yr un modd 'roedd wrth ei bodd ynghanol aelodau Clwb y Dwrlyn a'u mynych nosweithiau gwahanol.

Ond 'roedd i gerddoriaeth le amlwg yn ei bywyd, ac yn ôl y cyflwyniad hyfryd a wnaeth Sian a Lynne fel act ddwbl yn yr Amlosgfa ar ddiwrnod ei hangladd, gan ddilyn trefn yr wyddor i gwmpasu ei bywyd, 'roedd hynny, a chyfeilio, wedi llenwi ei byd. (Hynny yn ogystal a'i hoffter o afocados!)

Ac yn ôl y disgwyl y hi a fu'n dewis y gerddoriaeth ar gyfer ei siwrna olaf a hynny'n amrywio o emynau cyfarwydd, rhan o Sonata gan J S Bach, Robat Arwyn a Ryan Davies!

Yn fy nhro fe gefais i ei chwmni ar fynych deithiau car i'r capel, i'r ysbyty ac i'r siopau, gan chwerthin yn ddistop wrth ei chlywed yn adrodd am ryw dro trwstan a ddoi i'w chof. Weithiau byddai'r miri a'r hwyl yn golygu colli tro yn y ffordd, neu ddilyn y trywydd anghywir i gyrraedd rhyw fan neu i gilydd.

Byddwn fel teulu yn colli'r seiadau pan alwai heibio ein cartref am baned a sgwrs, ac yn ddieithriad byddai cyfnewid teitlau llyfrau yr oedd newydd eu darllen yn ddefod cyn ymadael.

Ac ar y 28ain o Hydref y cynhaliwyd y ffarwel olaf, gyda'r Gymraeg, Saesneg a'r Ffrangeg yn gymysg a'i gilydd mewn gwethfawrogiad a diolch am gael ei hadnabod.

Ein cydymdeimlad dwysaf â'r merched a'u teuluoedd, a'r chwech o wyrion, a gynrychiolwyd gan Sebastien mewn teyrnged ar eu rhan i'w Mam-gu, ac â'i chyfeillion agos a fu'n gynhaliaid iddi dros y blynyddoedd.

Cafodd ofal tyner gan staff y City Hospice yn ystod ei gwaeledd a'i dymuniad oedd gweld unrhyw gyfraniad er cof amdani yn cael ei gyfeirio at y sefydliad er lles eraill.

Rhodri-Gwyn Jones

**Clwb Rygbi Pentyrch**

Llongyfarchiade mawr i Maurice Rausa o Bronhaul ar ei gamp o gael y bêl i'r twll mewn un ergyd ar gwrs Y Creigiau yn ddiweddar yn y diwrnod golff blynyddol a drefnir gan Lywydd ac Is Lywyddion Clwb Rygbi Pentyrch i godi arian i'r clwb. Camp arbennig, yn enwedig o ystyried taw 28 yw ei handicap. Ac yn ddiddorol, dyma'r eildro iddo gyflawni hynny yn y blynyddoedd diweddar , a hynny ar yr un twll - y 10ed i'r rheini ohonoch sy'n gyfarwydd â'r cwrs. Mlân at yr hat-trick Maurice.



Maurice yn fuddugoliaethus yn codi'r bêl o'r twll ar y 10fed

Enillwyr y diwrnod serch hynny oedd y tîm yn cynrychioli Fine Wines Direct - a'i gwestai nhw ar y chwith, neb llai na'r cawr o gyn flaenwr rhyngwladol cydnerth dros Gymru - Craig Quinnell- a gyfranodd yn sylweddol at lwyddiant y tîm, gan gael dim llai na chwe phluen - chwech birdie - yn ei 18 twll. Anhygoel!! Dim rhyfedd bod ei handicap e mor isel â 2!! Llongyfarchiade mawr iddyn nhw hefyd ar eu buddugoliaeth.

Huw Llywelyn Davies



Enillwyr Diwrnod y Llywydd

## Cardiau Cyfarch Jan

Mae Jan Erskine wedi bod yn brysur eto yn creu cardiau bendigedig! Maent ar gael trwy gysylltu â Jan ar jerskine1@sky.com . Fe'u gwerthir mewn pecynnau o dri am £5. Gweler y gwaith celf cywrain isod.



**Rygbi Merched**

Brâf yn ddiweddar gweld criw da o ferched / menywod ifanc yn mwynhau rhywfaint o ymarfer a hyfforddiant rygbi ar Barc y Dwrlyn. Mae tua 15 yn ymgynnull am 6.30 ar Nos Iau gyda Rhys Beard a Phil Bartle yn cadw golwg ar bethe - y merched wrth eu bodd yn cael tipyn o hwyl ar y cae ac yna'n cael clonc a rhyw wydriad bach wrth gymdeithasu yn y clwb. Un wyneb newydd a ymunodd yn ddiweddar yw Catrin Finch! Rydyn ni i gyd yn fwy cyfarwydd â dwylo Catrin yn tynnu ar y tannau nag yn towlu'r bel hirgron! Ond sylw Catrin ar ôl ei sesiwn gynta? Pwy sy am chware'r delyn, pan mae na gyfle i chware rygbi!! Bydd croeso mawr yn aros unrhyw un o ddarllenwyr Tafod Elái fydde am ymuno yn yr hwyl

**Colli Cyn-Gadeirydd**

Trist yn ddiweddar oedd colli Bob Hannah, Bronhaul, a fu farw ar ôl brwydyr ddewr yn erbyn afiechyd creulon. Roedd Bob yn un o Hoelion Wyth y Clwb Rygbi - yn Gadeirydd brwdfrydig tan yn ddiweddar, gan gyfrannu yn enfawr at weithgarwch y clwb yn gymdeithasol ac yn weinyddol. Roedd yno bob nos ar ei stôl ar ben draw bar y lolfa - yn gymeriad poblogaidd tu hwnt gan bawb. Yn uchel ei gloch, ond hefyd yn uchel iawn ei barch, ac yn barod ei gymwynas, yn enwedig wrth helpu ffrindie gweddol ddi-glem i daclo probleme gyda'u cyfrifiadur! Mae'r clwb dipyn tlotach - a thawelach - o'i golli, ac ryn ni'n estyn ein cydymdeimlad i'w wraig Jan, y plant Paul a Vicky a'r teulu cyfan.

H.Ll.D.

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y Mis: Eluned Davies-Scott**

**Ffair Pont-y-clun**

Fe fydd Ffair Nadolig ym Mhont-y-clun eleni ar ddydd Sadwrn 4ydd Rhagfyr o 2.00 hyd 7.00 ym maes parcio Heol yr Orsaf, Canolfan y Gymuned a Café 50. Disgwylir dros 50 o stondinau yno gan gynnwys bwyd a diod. Fe fydd cerddoriaeth ac adloniant ffair hefyd i'ch diddanu.

**Llwyddiant Cyrsiau Paentio**

Symudodd Beth Giles i mewn i hen Gapel y Methodistiaid ym mis Tachwedd 2014 gan agor Oriel a gweithdy paentio a chelf yno. Erbyn hyn mae Beth wedi dod yn hynod lwyddiannus fel tiwtor celf gyda'i dosbarthiadau wedi'u harchebu'n llawn a rhestr aros hir i ymuno. Bydd yr arddangosfa flynyddol o waith ei myfyrwyr yn cael ei chynnal o Ragfyr 4ydd i Ionawr 31ain. Cewch gyfle i weld a phrynu gwaith gan 60 o'i myfyrwyr gyda gweithiau sy'n defnyddio cyfryngau fel acrylig, dyfrlliw, beiro a golchi ac ystod o bynciau - tirlun i bortread, botanegol i hanes natur.

Mae'r Oriel hefyd wedi dod yn fan ar gyfer arddangos a gwerthu gwaith dros 300 o artistiaid annibynnol lleol. Eleni, yn dilyn marwolaeth Elwyn Roberts, un o artistiaid mwyaf adnabyddus a hoffus Rhondda, mae'r Oriel hefyd wedi curadu arddangosfa o brintiau a gweithiau gwreiddiol ganddo sy'n dogfennu ei bortread nodweddiadol o'i gymuned.

Mae amrywiaeth hefyd o emwaith, cerameg, anrhegion, cardiau, tecstilau gwreiddiol, llestri gwydr, gwaith coed, gwaith metel, broc môr a cherflunwaith ar eich cyfer ar gyfer eich anrhegion Nadolig.



**Cychwyn menter newydd**

Ym mis Awst agorwyd siop newydd 'The Grey Hare' ar heol Y Bontfaen, Pont-y-clun. Menter gwr a gwraig lleol,




Sara a Leon Jones, o Frynsadler yw'r siop. Mae Leon wedi bod yn cynhyrchu cahnwyllau a'u gwerthu yn y Farchnad 'Vintage' yn Lôn Coedcae am gyfnod cyn agor y siop. Roedd nifer o gwmnïau â diddordeb yn y safle a bu raid iddynt gyflwyno eu cynlluniau i berchennog y safle cyn cael eu dewis fel tenantiaid. Heblaw am werthu canhwyllau maent hefyd ag amrywiaeth dda o ategolion cartref, eitemau crefft ac anrhegion gyda nifer fawr o'r rhai'n yn cael eu gwneud yn lleol. Dywedodd Sara fod cefnogaeth leol wedi bod yn ardderchog ers iddynt agor ac maent yn edrych ymlaen at gael eu archeb gyntaf o siocledi Sarah Bunton i ychwanegu at eu stoc Nadolig.

**Pen-blwydd hapus i Truffles yn ddwy oed.**

Ateb y galwad i addasu eu busnes a chynnig gwasanaeth i'r gymuned yn ystod cyfnod cynnar Covid oedd siopau Truffles a Piglets. Aeth Wayne Owen a'i chwaer, Susan, ati i ail-bwrpasu tafarn Y Boar's Head, Tylagarw ar gyfer anghenion y gymuned. Bu'r ddwy siop yn cynnig gwasanaeth cludo lleol yn ardal Pont-y-clun a'r dafarn hefyd yn cynnig cinio dydd Sul tecawê. Erbyn hyn mae'r dafarn wedi ail agor ond mae Truffles yn parhau fel siop Zero-gwastraff lwyddiannus. Yn y flwyddyn newydd fe fydd adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer y siop gan gynnig mwy o le ac amrywiaeth o nwyddau a bwydydd. Cyfle arall i siopa yn lleol a chefnogi busnesau bach.



**Merched Y Wawr**

Cefnogi busnes lleol fydd Cangen Tonysguboriau a'r Cylch yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr gyda Catherine Millard o siop flodau Lili Wen Treorci yn dangos i'r aelodau sut i wneud torch Nadolig.. Dathlwyd diwrnod Shwmae/Sumae gyda Helen Prosser ym mis Hydref ac fe aeth criw o'r aelodau allan am ginio i Caesars' Arms ym mis Tachwedd. Menna Thomas fydd y gwestai pan fyddwn yn dathlu'r Hen Galan ym mis Ionawr. Mae'r gangen yn cwrdd yn Cafe50 Pont-y-clun ac mae croeso cynnes bob amser i aelodau newydd.

**930; 4294; 670,000 - Llwyddiant ysgubol dwy elusen leol**

Mae galar personol dau deulu lleol wedi arwain at sefydlu dwy elusen sydd, erbyn hyn, yn gyfarwydd iawn am eu llwyddiant anhygoel i roi cymorth i eraill.

Sefydlywyd *2Wish Upon A Star* 10 mlynnedd yn ôl gan Rhian Mannings o Feisgyn wedi marwolaeth drist ei gŵr Paul a'i mab George. Eleni cafodd yr elusen ei ail 'frandio' fel *'2 Wish'* ac mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig i bobl a effeithir gan farwolaeth sydyn ymysg pobl ifanc yn rhoi cymorth i deuluoedd led led Cymru erbyn hyn - 930 yw nifer yr unigolion ifanc fu farw a 4,294 yw nifer yr unigolion sydd wedi cael eu cefnogi ers sefydlu'r elusen.

Yn ddiweddar aeth Rhian a'r tîm o'r elusen i'r Senedd yng Nghaerdydd i gyflwyno deiseb lwyddiannus sy'n gofyn am wella gwasanaethau profedigaeth yng Nghymru.

Cafodd Rhian hefyd gyfle i wisgo ei dillad gore ym mis Tachwedd ar gyfer derbyn ei MBE gan Dywysog Siarl yng Nghastell Windsor.

Her Rhian yn 2022 yw dringo Mynydd Kilimanjaro ym Mis Chwefror.



Mae cwmnïau lleol yn cefnogi gwaith yr elusen ac ym mis Tachwedd derbyniwyd rhodd o £2372.34 trwy Gronfa Gymunedol Leol y Co-op gan reolwr ei siop ym Mhont-y-clun.

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN (Parhad)




Elusen arall sy'n cael cefnogaeth helaeth gan y gymuned a busnesau lleol yw Cronfa *'Forget Me Not'* Rhian Griffiths sefydlwyd gan Wayne a Jane Griffiths, rhieni Rhian a fu farw o ganser ceg y groth yn 2012. Erbyn hyn mae 188 o fusnesau yn gwerthu'r bathodynnau blodyn glas y gors.

£670,000 yw'r cyfanswm mae'r elusen wedi codi i waith Canolfan Canser Felindre hyd yn hyn.

Mae'r elusen hon, fel *2Wish*, yn cefnogi'r teulu ar gyfnod anodd, ac wedi cyfrannu at ystafell deuluol hunangynhwysol lle gall deuluoedd aros dros nos i fod yn agos i'r claf sydd yn yr Ysbyty. Yn ddiweddar mae arian yr elusen wedi cael ei glustnodi ar gyfer noddi ffisiotherapydd sy'n arbenigo mewn delio gyda phroblemau a sgil-effeithiau all godi o driniaeth radiotherapi ar gleifion gyda chanser gynaecolegol - y cyntaf o'r fath yng Nghymru.

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i Alffi Edwards o'r Groes-faen – disgybl blwyddyn 9 yn Ysgol Llanhari – sydd wedi ennill cap am chwarae pêl-droed i'r sir dros gyfnod o dair blynedd. Cynhaliwyd digwyddiad i'r bechgyn llwyddiannus sy'n chwarae yng ngharfan y bechgyn dan 14 oed, yng Nghlwb Criced Tre Hopcyn nos Fawrth 23 Tachwedd. Yn ogystal â chwarae i'r sir, mae Alffi hefyd yn chwarae i dîm yr ysgol ac i dîm Pontyclun dan 14 oed.



## Colli Mima Morse

Roedd Mima yn fwrlwm o fywyd a roddodd llawer i gyfoethogi diwylliant yr ardal. Bu farw ar ddydd Iau, 11 Tachwedd yn ôl yn ardal ei magwraeth yn Llangeitho.

Daeth Mima a'i gŵr Howard a'r teulu i fyw i Tonteg yn yr 1980'au ac ar unwaith gwelwyd ffrwyth ei llafur yn cefnogi Capel Salem, Tonteg a Merched y Wawr yr ardal. Bu'n athrawes a phrif athrawes gan ysbrydoli llu o ddisgyblion gyda'i ffyrdd anarferol o ddysgu oedd yn cynnwys cwmnïaeth ei chi annwyl yn aml iawn!

Bu'n Ohebydd Lleol Tonteg i Tafod Elái am nifer o flynyddoedd ac roedd disgwyl mawr am berfformiadau'r teulu Morse yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elai.

Ar ôl ymddeol aeth yn ôl i fyw i'w hardal enedigol yng Ngheredigion a chyfrannu mewn nifer o ffyrdd i'r gymdeithas leol yn cynnwys gweithredu fel gweinidog capeli'r cylch.

Daeth tyrfa ynghyd i Gapel Salem, Tonteg ddydd Gwener 19eg Tachwedd i gofio amdani. Cydymdeimlwn â'r teulu yn arbennig ei phlant, Dafydd, Elin a Tomos fu'n dyner eu gofal drosti.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Cantorion Creigiau**
Roedd y côr cymysg lleol Cantorion Creigiau yn falch o ail-gychwyn ymarfer ar ddiwedd mis Medi ar ôl gosod asesiad diogelwch yn ei le tra'n dilyn canllawiau y Clwb Golff wrth ymarfer. Mae ymarferion y côr yn digwydd lawr llawr mewn ystafell 'preifat' ger y bwyty ar nosweithau Sul 7.30 - 9.00 p.m. gyda'r opsiwn i gymdeithasu yn y bar wedyn.

Gwahoddir cyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni unrhywbryd - dim ond cyrraedd sy' eisiau (dilynwch drefn un-ffordd y Clwb Golff o gyrraedd trwy ddrws y cefn a gwisgo mwgwd wrth ddod i mewn).

Yn anffodus, ni fydd ein Cyngerdd Carolau blynyddol yn cymryd lle eto eleni oherwydd pryderon ynglŷn â'r haint 'covid' a'r ffaith bod canllawiau Eglwys Creigiau ynghylch neuadd dan do a rheolau mwgwd a phellter addas gorcyhmynnol yn rhwystro beth y teimlwn ni a fyddai yn 'noson o ganu pleserus'. Gobeithio y gall y Cyngerdd Carolau ddigwydd ym mis Rhagfyr 2022, mewn awyrgylch mwy dymunol heb 'covid'.

Eleni fyddai'n dathliad o 51 mlynedd o ganu ym mhentref Creigiau - camp anhygoel i grŵp o gantorion dan arweiniad parhaol Mair Roberts. Edrychwn ymlaen at ddathlu ein pen-blwydd mewn steil flwyddyn nesaf. Diolch mawr i bawb sydd wedi ein cefnogi ac i'r elusennau lu y cyfrannon atynt dros y 51 blwyddyn diwethaf.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn 2022 hapus ac iach i bawb!

**Croeso Efa!**
Mor braf cael rhannu newyddion da Eleri a Tom Curran! Ganed Efa Mared Curran ar yr ail ar bymtheg o Hydref - eu plentyn cyntaf. Mae'r teulu bach wedi hen sefydlu ym mhentref Coity, Pen-y-bont. Mae Efa yn wyres i Tim a Patricia Curran, Notais, Porthcawl ac wrth gwrs i Helen a Gordon Middleton, Creigiau. Llongyfarchiadau mawr!



**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â phlant ac wyrion Mei Jones, a'n gadawodd yn llawer rhy gynnar ddechrau mis Tachwedd. Yn anfon cwtsh cynnes atoch Ela, Lois, Steffan ac Aron.

***Question Time* o Gaerdydd**
Difyr oedd gwylio rhifyn nos Iau, 25ain o Dachwedd o'r rhaglen *Question Time* a ddeuai yn fyw o Gaerdydd. Siaradwyr ardderchog, holwyr craff a chynulleidfa fywiog! Yn eu plith Ann Angell, Creigiau. Basai'n braf iawn cael darllen argraffiadau Ann o'r noson.

**Apêl!**
Cofiwch ein bod yn llwyr ddibynnol am straeon oddi wrthoch chi'r darllenwyr! Felly amdani yn y Flwyddyn Newydd! Dim esgus - mae'r cyfeiriad ebost ar dop y golofn! Dewch, rhannwch eich newyddion da, eich llwyddiannau, eich cwynion, eich gofidiau fel ei gilydd.

**Tesco Creigiau**
Wrth i Tesco adnewyddu eu siop yn Creigiau diflannodd nifer o arwyddion dwyieithog a gosodwyd rhai uniaith Saesneg yn eu lle. Ond yn dilyn pwysau gan Teleri Jones a Chrotesi Creigiau mae'r cwmni wedi disgyn ar eu bai ac mae disgwyl y bydd y Gymraeg yn cael lle blaenllaw yn y siop.

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon:**
[Noder: Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn y Festri]

**Mis Rhagfyr 2021 (sylwer ar amseroedd gwahanol yr oedfaon):**
5 Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (5:00 p.m.)
12 Rhagfyr – "Naw Llith a Charol" (5:00 p.m.)
19 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)
25 Rhagfyr – Oedfa Bore'r Nadolig (10:00 a.m.)
26 Rhagfyr – DIM OEDFA

**Mis Ionawr 2022: (oedfaon am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)**
2 Ionawr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9 Ionawr – Oedfa Blygain (5:00 p.m.)
16 Ionawr – Oedfa dan ofal Emlyn Davies
23 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
30 Ionawr - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

**Mis Chwefror 2022 :**
6 Chwefror - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

---oooOOOooo---

A Gareth Bale newydd dderbyn ei 100fed cap fel chwaraewr peldroed dros Gymru, bum yn pori yn Beibl.net y dydd o'r blaen i weld pa mor aml y defnyddid y term "*cant*" ynddo.

Yn y Testament Newydd, dim ond yn epistolau Matthew a Luc yr ymddengys, a hynny yn y ddameg adnabyddus honno am hanes y "Ddafad Golledig".

Stori tra gwahanol ydi hi yn yr Hen Destament, ac fe gewch eich syfrdanu ym mhennodau cyntaf Genesis gan y sôn am Shem ac Abraham yn dod yn dad, a hwythau yn gant oed (dwy flynedd wedi'r dilyw yn hanes Shem!)

Fe gostiodd y darn tir yn Sichem, lle y claddwyd esgyrn Joseff wedi iddynt gael eu cludo o'r Aifft, "*gant o ddarnau arian*" i Jacob.

Byddai dyn a gyhuddai ei wraig ifanc ar gam yn derbyn dirwy o "*gant o ddarnau arian*".

Roedd capteiniaid ar "*unedau o gant o filwyr*", a bu i Dafydd gadw cant o'r ceffylau a ddaliwyd wedi brwydro yn Syria.

Bu turnio ac addurno wrth i Solomon ddechrau adeiladu a dodrefnu'r Deml – "*gwnaeth gant o fowlenni aur*"; "*gwnaeth gant o dlysau siâp pomgranadau i'w gosod ar y cadwyni*" ac "*roedd cyfanswm o gant o gwmpas y rhwyllwaith ar y top*".

Bu offrymu "*cant o deirw*" wrth gysegru'r Deml wedi iddi gael ei hail-adeiladu.

Ac wrth gwrs y datganiadau – yn "nefoedd newydd a daear newydd" Eseia -"*bydd rhywun sy'n marw yn gant oed yn cael ei ystyried yn ifanc*", ac yn ôl y Diarhebion "*mae gair o gerydd yn gwneud mwy o argraff ar ddyn doeth na chwipio ffŵl gant o weithiau!*"

Pam y diddordeb yn y "cant" tybed?
Wel, hunan-ddiddordeb yn anad dim arall siwr o fod, er bod peth balchder yn ogystal, gan i'r golofn hon fod y ganfed i mi ei chyflwyno i ddarllenwyr Tafod Elai yn enw Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Gan i hynny ddigwydd ar ddiwedd blwyddyn arall yn ein hanes, meddyliais y gallai fod o ddiddordeb i gymeryd cip ar beth o gynnyrch y gorffennol, a hynny trwy gamu fesul degawd ers i'r erthygl gyntaf ymddangos yn rhifyn Chwefror 2012.

Adroddiad am yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem, ac yn enw Bethlehem, dros gyfnod Nadolig 2011 oedd honno, gan ganolbwyntio bryd hynny ar y lleol a'r cyfarwydd.

Parhau â'r elfen leol a wnaethpwyd yn rhifyn Rhagfyr 2012 - manteisiwyd ar gyflwyniad yr Athro Peter Wynn Thomas ar "Anas ac ynotrwdd Bethlam" [dathlu 140 oed yr adeilad presennol], a groniclwyd yn ddestlus gan Ifan Roberts ar gyfer "Y Tyst" yn thema i'r golofn.

Yn rhifyn Rhagfyr 2013 - yr anghyfiawnder dybryd sy'n bodoli rhwng ein Nadoligau cyfforddus ni â'r hyn sy'n wynebu canran uchel o drigolion ein byd sydd ar eu cythlwng oherwydd prinder bwyd a chymorth, gan ddeisyf cefnogaeth i'r elusennau rheini sydd yn ceisio dod â mymryn o obaith i'w bywydau brau.

Erbyn rhifyn Rhagfyr 2014 - hanes ymweliad â Basilica di San Nicola yn Bari, yn sowdl yr Eidal, a'r wefr o weld llawenydd a dagrau criw o Rwsiaid Uniongred (mewn eglwys Gatholig), oedd yno ar bererindod wrth fedd nawddsant y plant.

Cyhoeddwyd ymddeoliad y Parchedig R Alun Evans, ar ddiwedd y flwyddyn, gan addunedu i gydnabod ei wasanaeth ym Methlehem ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Yn rhifyn Rhagfyr 2015 y cafwyd yr adroddiad am y gydnabyddiaeth honno, gan i hynny ddigwydd, yn ôl y drefn "Waelod-y-garthaidd", ar yr 22ain o Dachwedd 2015. Manteisiwyd ar gyflwyniad gan Ifan Roberts fel angor i'r erthygl. Y diweddar (ysywaeth) Cath Edwards a gafodd y fraint o adrodd cerdd gomisiwn ("Y Bugail Da" gan Rhys Dafis) yn gyhoeddus am y tro cyntaf.

Nodwyd cofrestru Bethlehem.cymru ar gyfer gwefan y capel.

Yn rhifyn Rhagfyr 2016 - nodi mai gair y flwyddyn 2016 oedd "*ol-wirionedd*" [post-truth], a hynny yn dod yn sgil Refferendwm Brecsit ac etholiad Arlywyddol Trump. Ymddengys bod "*gwirionedd*" mwyach yn ddibwys ac amherthnasol.

Gair a ddaeth yn agos at y brig oedd "*hygge*", gair o'r Ddaeneg yn disgrifio'r agosatrwydd a'r cysur sy'n rhan o'u gwead!

Yn rhifyn Rhagfyr 2017 - traddodiadau Nadoligaidd ardal Profens yn ne Ffrainc, a'r "*santons*" (Profonsaleg "*santoun*", sef sant bychan) yn creu golygfa'r Geni ar sgwar y pentref, gyda Mair a Joseff a'r baban Iesu yn y preseb yn y canol, ynghyd a'r asyn, yr ych, a'r doethion, ond y cyfan wedi ei osod i adlewyrchu patrwm byw pobl Profens, gyda'r ffynnon a'r dŵr ar gyfer y felin wynt, y popty cymunedol, a'r coed pinwydd yn rhan anhepgor o'r cyflwyniad.

Erthyglau mewn cylchgronnau a'r gwefannau cymdeithasol oedd yr ysgogiad yn rifyn Rhagfyr 2018. Tarddiad a gwnethuriad llwch cosmig a'r darogan mai hwn, o bellafoedd y gofod, a ddaeth at ei gilydd i ffurfio ein Daear ni (*"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear")*. Geiriau Vaclav Havel oedd y llall, a'r cwestiwn ynglŷn â "gwir natur geiriau Crist?" *("Yn y dechreuad yr oedd y gair")*

O lyfr "*Bethlehem – Biography of a Town*", gan Nicholas Blincoe, y daeth yr arweiniad i rifyn Rhagfyr 2019. Bu i'r awdur gyflwyno pwdin Nadolig i'w ddarpar deulu-yng-nghyfraith, nad oedd erioed wedi gweld na phrofi un o'r blaen. Dechreuodd ddarllen y rhestr cynhwysion iddynt, ond chwarddodd y tad o glywed, gan egluro bod bron pob un cynhwysyn yn tyfu yn ei ardd, a'r gweddill yn cael eu cludo ar gefn camelod, ar draws yr anialwch, i'r dref, gan farsiandawyr Arabaidd, yn union fel yr aur, thus a myrr yn stori'r Geni!

A rhifyn Rhagfyr 2020? – dyma adleisio R S Thomas, Euryn Ogwen a Jan Morris, gan fynegi gwerthfawrogiad o'u gweledigaeth, ac yn hanes y ddau olaf eu canmoliaeth o'r gofal, a'r dulliau amgen rheiny a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod clo er cadw cyswllt â'n gilydd, a gweld y byd trwy lygaid eraill.

*"Caredigrwydd cynhenid sydd wedi cadw ysbytai i fynd, nyrsus yn weithgar, ambiwlansys ar y ffordd, meddygon a gwyddonwyr yn eu labordai nos a dydd, ac wedi peri i gymdogion helpu eu cymdogion, ac i bobol o bob lliw a llun ymddwyn fel y byddai eu dewis Grewr yn dymuno…."* [Jan Morris].

---oooOOOooo---

Cofiwch, os credwch bod cant yn ddigon, neu'n ormod, y chwi, ddarllenwyr brwd y "Tafod", all roi taw ar y gohebydd a'i siarsio i gymeryd saib yn 2022!

---oooOOOooo---

Yn ôl ein harfer dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bobl Bethlehem a'r Byd, gan ddiolch eto eleni am gymwynaswyr lu a chefnogaeth gyson drwy'r flwyddyn a aeth heibio. Parhawn, gyda'n gilydd, yn ffyddlon a ffyddiog ar ein taith tuag at 2022.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Croeso**
Mae'n braf cael estyn croeso i Ieuan a Jo Morris i'r pentref. Mae'r ddau wedi ymddeol ac wedi ymgartrefu yn Nant y Felin. Bu Jo, sy'n hanu o Solfach, Sir Benfro yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Pont Siôn Norton ym Mhontypridd ac Ieuan, sy'n enedigol o Hwlffordd, yn ddarlithydd mewn amryw o Brifysgolion. Mae Ieuan yn ffotograffydd o safon ac mae newydd gyhoeddi llyfr "Photographing Pembrokeshire" sydd yn tywys y darllenydd drwy rai o'r llefydd yn Sir Benfro a gysylltir â môr ladron, smyglwyr a llongddrylliadau. Mae'r lluniau yn y llyfr yn drawiadol iawn.

**Brysiwch Wella**
Dymuniadau gorau i Rhian Eyres, Heol Iscoed sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llaw yn ddiweddar. Dymuniadau gorau am wellhad buan a llwyr iti.

**Cerddor o Fri**
Rwyf wedi sôn cyn hyn, yn y golofn yma, am dalentau di-ri Huw Griffiths, Parc Nant Celyn. Erbyn hyn mae ei ganeuon a'r Grŵp "Dail" wedi eu chwarae ar Radio Cymru ac ar Radio 6 Music a'r DJ Marllh Riley yn cyfeirio at ei ganeuon fel "pop perffaith". Mewn erthygl yn y cylchgrawn Golwg mae'n sôn am y gwahanol ddylanwadau ar ei gyfansoddiadau. Sonia hefyd am ddylanwad ei deulu, ei dad, Richard wedi chwarae mewn amryw o grwpiau, ei fam, Ann yn delynores a'i chwaer Elen sydd yn ymuno'n gerddorol yn y grŵp "Dail".

**Cywiriad**
Yn rhifyn mis Tachwedd mi soniais fod fan Swyddfa'r Post yn ymweld â'r pentref bob prynhawn Llun. Mae'n rhaid i mi dynnu sylw'r darllenwyr mai rhwng chwarter wedi dau a chwarter wedi tri ar ddydd Llun y bydd y fan yn ymweld â'r pentref bellach.

**Y TABERNACL**
**Bedydd**
Fore Sul, Tachwedd 14eg, bedyddiwyd Miriam Elain, merch Geraint a Manon Huws, Penywaun, a chwaer fach yr efeilliaid Ffion a Nia. Dyma'r bedydd cyntaf y llwyddwyd i'w gynnal yn Y Tabernacl ers dros ddwy flynedd oherwydd cyfyngiadau'r feirws gan fod drysau'r capel wedi bod ar gau tan yn ddiweddar. Roedd y seremoni yma yn un nodedig iawn i Rhiannon Humphreys gan mai dyma ei bedydd cyntaf ers iddi dderbyn cyfrifoldeb am fedyddiau'r Tabernacl. Yn fwy arbennig i Rhiannon oedd cael y pleser o fedyddio ei hwyres fach Miriam a gwneud hynny gydag urddas. Roedd yn braf cael croesawu teuluoedd Manon a Geraint i'r Oedfa.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Tomos a Gwerfyl Morse, Aneurin, Gwenllian a Bleddyn ar golli mam Tomos yn ystod y mis. Bu Mima'n byw yn Nhonteg am flynyddoedd lawer ac fe gyfrannodd yn helaeth iawn i fywyd addysgol, cymdeithasol a chrefyddol yr ardal. Roedd yn gymeriad bywiog, direidus a phenderfynol fel y cyfeiriodd Dafydd, ei mab hynaf yn ei deyrnged iddi yn Nghapel Salem, Tonteg yn y Gwasanaeth fore Gwener, 19eg o Dachwedd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y parchedig Rosa Hunt ac yn cael ei chefnogi gan Y parchedig Alan Pickard a'r Parchedig Rob Nicholls. Cynhaliwyd yr angladd ym Mynwent Llwynpiod yn ystod y prynhawn. Estynnwn ein cydymdeimlad i Dafydd, Elin a Tomos a'u teuluoedd.

**Derbyn Anrheg**
Yn anffodus bu'n rhaid i aelodau Capel y Tabernacl, Ynysybwl gau drysau'r capel yn ddiweddar ac maent wedi cyflwyno gwydrau'r cymun i ni yn Y Tabernacl, Efail Isaf. Diolch o galon i aelodau'r Tabernacl Ynysybwl am eu haelioni.

**Adeg Nadolig - cyfle i gefnogi**
Daeth yn adeg o'r flwyddyn i ni yn Y Tabernacl i ddangos ein haelioni ac i ledaenu ychydig o ysbryd yr Ŵyl. Amser i ni, yn ôl ein harfer i gyflwyno talebau gwerth £20 i bump ar hugain o bobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn paratoi i fyw'n annibynnol. Byddwn yn cefnogi pedair o hosteli'r elusen POBL gan gyfrannu £50 yr un iddynt er mwyn eu galluogi i gynnal ychydig o ddathliadau'r Nadolig. Yn ôl ein harfer byddwn hefyd yn cefnogi Cymorth i Ferched Cymru drwy gyflwyno danteithion Nadolig a nwyddau hylendid iddynt.

**Banc Bwyd**
Rydym wedi cefnogi'r banciau bwyd yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae'r angen yn fwy nag erioed a llawer o deuluoedd yn methu rhoi pryd o fwyd maethlon i'w plant. Daeth cais trwy law Carys Davies ar i ni gefnogi ymgyrch Nadolig y Banc Bwyd yn Salem, Tonteg drwy gasglu pob math o ddanteithion Nadolig.

Y pedair elusen a dderbyniodd ein cefnogaeth eleni drwy gasgliadau'r amlenni brown oedd Cwtch, Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Cymorth i Ferched Cymru ac Ysgol Tŷ Coch. Diolch i aelodau'r gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am eu hymroddiad parod, yn enwedig i John Llewelyn Thomas ac Ann Dwynwen Davies.

**Clwb y Twmiaid**
Bydd Clwb y Twmiaid yn trefnu Gorymdaith Llusernau Nadolig drwy'r pentref nos Sul, Rhagfyr 12fed am 5 o'r gloch yr hwyr. Cofiwch ddod mas i weld yr orymdaith. Nos Iau, Tachwedd 25ain bu aelodau Clwb y Twmiaid a'u ffrindiau'n mwynhau gwledd o gyri yn Indiaah ym Mhontyclun, a chael cwis i orffen y noson mewn steil.

**Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Rhagfyr**
Rhagfyr 5ed Y Parchedig Eirian Rees, Huw Roberts a Sylvia Davies
Rhagfyr 12fed Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul
Rhagfyr 19eg Oedfa gydag aelodau Clwb y Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa
Rhagfyr 26ain Ni fydd Oedfa.
Ionawr 2il yng ngofal Geraint Wyn a Nia Williams



Clwb y Twmiaid yn mwynhau gwledd o gyri

## IESTYN MEWN DU A GWYN

Dwi'n diflanu'n eithaf rheolaidd. Sai'n trio. Fi just yn dueddol o gael fy ngholli am ambell eiliad. Neu wythnos. Neu ambell fis. Dyw e ddim yn teimlo fel lot i ddechrau ond mae'n dal i fyny gyda ti. A dyna pryd mae'n dechrau brifo.

"I ble es di?"
Nunman really
Lan yr hewl i'r hên orsaf drên.
Agor fy llygaid i.
Cyfri.
Anadlu.
A ti'm yna rhagor
Ti Nol i reality
Ond tro 'ma ty'm bach fwy llonydd.
Just tipyn bach.
Tiny

"I ble es di tro 'ma?"
Am daith arall rownd a rownd yn y fy mhen i
O'n i'n stuck yma am tipyn bach
Wedyn ddringes I mas.
Anadlu
Saib bach
Arall.
Eiliad sy'n cyfri fel cwpwl o ddiwrnodau
i addasu ar ôl dod nôl o wylie tramor.
Cyn cario ymlaen eto
Full steam ahead.
Di-dor
Di-stop
Nes bod rhaid i fi ddiflannu eto am gyfnod.

Diolch

Iestyn Gwyn Jones

## Colli Mei Jones

Ym marwolaeth y sgwennwr a'r actor Mei Jones mi nath Cymru a'r ardal hon golli talent arbennig iawn. Roedd y llu teyrngedau ar deledu, radio, cylchgronnau, papurau newydd a'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg yn dyst i hynny. Fe dalwyd teyrnged iddo, hyd yn oed, cyn gêm bêl-droed gartre allweddol Cymru yn erbyn Gwlad Belg!

Wrth gwrs Wali C'mon Midffild wnaeth ei anfarwoli yng ngolwg trwch y boblogaeth. Does yna ddim amheuaeth nad oedd y gyfres yn waith athrylithgar lwyddodd i gyfannu hen ac ifanc, hwntws a gogs. Ac nid ar chwarae bach mae gwneud hynny.



Mae pobol fu'n gydweithwyr agos iddo fel Aled Ffred, John 'Bŵts', Dyfan Roberts ac eraill wedi traethu'n huawdl am ei dalentau. Roeddwn i'n arbennig o hoff o rai o sylwadau Alun Ffred – fod angen cofio Mei pan oedd ar ei orau fel actor strêt a chomedi gwych yn ogystal a'i ddawn sgriptio dihafal.

Roeddwn i'n fudur nabod Mei ers blynyddoedd. Wna i byth anghofio ei berfformiada efo cwmni Bara Caws ers talwm. Mewn sioeau arloesol roedd o'n wych yn actio ac yn sgwennu'r sgript hefyd ar y cyd â Valmai Roberts.



Ryw bum mlynedd yn ôl wedyn pan oeddwn yn Gadeirydd Clwb y Dwrlyn, mi wnes gysylltu efo fo i drio'i berswadio i wneud noson standyp ar gychwyn ein tymor. Er ei fod wedi cydsynio ddaeth pethau ddim i fwcwl ar ôl iddo gael dôs hegar o annwyd. Ond sbardunodd yr ymweliad ar gyfeillgarwch a barodd tan y diwedd.

Roedd Mei wedi encilio i raddau helaeth oddi wrth gymdeithas ymhell cyn y Covid. Er hynny cyn colli yr hen Gel, ei gi defaid ffyddlon llwydlas, ryw ddwy flynedd yn ôl, byddai yn ymuno â chymdeithas perchnogion cŵn y Creigiau bron yn foreol ar gaea chwarae'r pentre.

Picio heibio iddo bob ryw dair wsos neu fis fyddwn i ac yn rhoi'r byd yn ei le. Roedd yn sgwrsiwr difyr, yn ddyn hynod alluog ac yn Gymro digymrodedd. Mi allai o fod yn dipyn o boen yn eich ffonio yn hwyr yn nos ac yn hwyrfrydig i gau pen y mwdwl. Ar ôl awr a hanner i ddwy awr o sgwrsio mi fyddwn yn gorfod dweud - 'Gwranda Mei, ma'r ciando'n galw'. Deryn y nos oedd Mei. Roedd y sgyrsia wastad yn felys a heddiw ar ôl iddo fynd, dwi'n difaru mod i wedi rhoi taw arno sawl tro.

Os mynn glod bydd farw meddai'r hen air. Ac mi gath Mei Jones glod ar ôl iddo ein gadael. Dwi ddim yn cofio gweld cymaint o ymateb i farwolaeth Cymro Cymraeg. Heb ei fai heb ei eni. Ac roedd gan Mei fel pob un ohonom ei feiau. Doedd o ddim yr hawsa o blant dynion ar adegau. Roedd ei dalent yn dalent mor brin yn y Gymru Gymraeg ac mae'n biti garw na chawsom fwy o berlau o'i ysgrifbin na chwaith fwy o berfformiadau llachar ar lwyfan na sgrîn. Ond fel y dywedodd Alun Ffred – 'rhaid diolch am a gaed.'

Mae'n gadael dwy ferch a thri o wyrion yn y Gogledd a dau fab yn y Creigiau. Mi nes i gyfarfod Steffan ac Aron sawl gwaith dros y blynyddoedd. Mae nhw'n hogiau gwirioneddol hyfryd a dwi'n siwr fod holl ddarllenwyr Tafod Elái yn cymdeimlo yn fawr â nhw yn eu profedigaeth.

Eifion Glyn

## Enillydd llyfr arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Loreen Williams, Efail Isaf, ar ennill cystadleuaeth *Pôs Mwynhau* yn rhifyn cyfredol Y Wawr. A'r wobr? Wel, llyfr! Da iawn ti, Loreen!

## Hanes Llyfr cyhoeddwyd yn 1606



Yn rhifyn Gaeaf 2021 'Y Casglwr' mae hanes diddorol iawn am hen lyfr ddaeth i law Glenys Roberts, Creigiau. Cyfieithiad gan Edward James yw 'Llyfr yr Homiliau' o Bregethau a baratowyd yn yr 16eg ganrif gan yr Archesgob Thomas Cranmer ac eraill i'w defnyddio mewn capeli yn nyddiau cynnar Protestaniaeth. Roedd y llyfr yn un o'r rhai cyntaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg ac yn yr erthygl mae Glenys yn trafod hanes y llyfr a sut yr aeth o Landaf i Lŷn ac yna i Creigiau.

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Priodas**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bryn Reynolds a Carys King briododd yn Ystâd Pencoed Ddydd Sadwrn Hydref 23ain. Mae Bryn yn gyn-ddisgybl Ysgol Evan James ac aeth Carys i Ysgol Pont Siôn Norton. Fe gwrddodd y ddau yn Ysgol Garth Olwg. Maent wedi ymgartrefu yn Ynysybwl.



**Dathliadau**
Croeso mawr i Caio mab i Jess ac Owain Morgan Jones, Caerdydd. Mae ei chwaer fawr, Lois wedi dwlu a hefyd mam-gu, Lis Morgan Jones, Graigwen.

Dymuniadau hwyr i Bethan a Gerwyn Caffery, Graigwen. Buon nhw'n dathlu eu priodas ruddem ychydig fisoedd yn ôl.

Mae dau oedd yn yr un dosbarth yn Ysgol Pont Siôn Norton wedi dathlu eu penblwyddi yn hanner cant. Llongyfarchiadau i Pete Ebbsworth, gynt o Graigwen, sy bellach yn byw yn Llanwnnen a hefyd i'w gyd ddisgybl Eleri Griffiths, Pantygraigwen.

Cyfarchion pen-blwydd i Gareth Lloyd, y Pared, Pontypridd sy'n dathlu pen-blwydd nodedig ym mis Rhagfyr a phob dymuniad da i'w wraig, Myfanwy gan aelodau Merched y Wawr Pontypridd.

**Y Sgrin Fach - Fferm Fach**
Mae dau o gyn-ddisgyblion Ysgol Evan James wedi bod yn gweithio ar gyfres deledu newydd i blant 'Fferm Fach' a bydd y rhaglen gyntaf yn y gyfres ar S4C fore Llun Rhagfyr 6ed am 7.30. Huw Blainey sy'n actio rhan Hywel y ffermwr ac Osian Williams yw un o'r dynion camera. Bydd wyth rhaglen yn y gyfres, un ohonynt am goed Nadolig, a gobeithio gwnaiff disgyblion presennol Ysgol Evan James fwynhau gwylio.

**Clwb y Bont**
Yn ddiweddar fe dderbyniodd Rhuanedd Richards ar ran y Clwb rhodd o sgiw gan Caryl Parry Jones. Fe fydd plât ar y fainc er cof am Magi Dodd, Graigwen a oedd yn gefnogol i'r Clwb ac yn gydweithiwr yn Radio Cymru gyda Caryl.

O'r diwedd fe fydd yr adeiladwyr yn cychwyn ar y gwaith i lawr gwaelod y Clwb pan fydd y selar a'r tai bach yn cyfnewid lleoliad. Hefyd fe fydd dau set o risiau mewnol yn cael eu gosod. Nos Sadwrn, Rhagfyr 11eg yw'r noson olaf cyn i'r Clwb gau am ychydig fisoedd.

**Merched y Wawr**
Fe fydd y Gangen yn cwrdd nos Iau, Rhagfyr 9 fed am 7.30 p.m. yng Nghlwb y Bont. Noson Nadoligaidd dan ofal yr aelodau. Cyfle i ddathlu a mwynhau ychydig o ddanteithion!

Cyfarchion yr Ŵyl i dair o'n haelodau - Cerys, Delyth B. a Myfanwy fydd ddim yn gallu ymuno â ni y tro yma.

Ym mis Ionawr byddwn yn cwrdd ar Zoom. Ein gwestai nos Iau, Ionawr 13eg am 7.30 p.m. fydd Dr. Elin Jones. Edrychwn ymlaen at glywed ei sgwrs am Archif Menywod Cymru gan dalu sylw arbennig at ferched enwog Pontypridd.

**Clwb Llyfrau**
Nofelau Cymraeg diweddar fydd dan sylw gan yr aelodau nos Lun, Rhagfyr 13eg am 7.00 p.m.

Yn y flwyddyn newydd cawn gwrdd nos Lun, Ionawr 17eg am 7.00 p.m. gan obeithio fydd ambell hosan Nadolig wedi cynnwys cyfrolau newydd i'w trafod.

**Awdures Brysur**
Llongyfarchiadau i Eurgain Haf, Y Comin sydd â llyfr newydd wedi'i gyhoeddi gan Wasg y Lolfa. Mae 'Cyfrinach Noswyl Nadolig ' yn y siopau nawr.

**Hoffi Coffi**
Hyfryd oedd clywed sgwrs Steffan Huws, gynt o Heol Merthyr gyda Beti George ar ei rhaglen fore Sul mis diwethaf. Mae Steffan yn gyn-ddisgybl Ysgol Pont Siôn Norton a Rhydfelen. Ar ôl teithio a gweithio tu allan i Gymru mae e a'i deulu wedi setlo yn Y Groeslon, ger Caernarfon ac yn rhedeg y cwmni rhostio a gwerthu coffi Poblado.

**Trafferthion gyda'r Gwasanaeth Bws**
Mae'r Cynghorydd dros tref Pontypridd, Heledd Fychan, wedi derbyn amryw o gwynion dros y misoedd diwethaf am y gwasanaeth bws sy'n gwasanaethau Graigwen. Bydd yn cyfarfod y cwmni bws yng nghanol Rhagfyr ac mae'n gofyn i drigolion roddi gwybod yn uniongyrchol iddi am unrhyw broblemau drwy ebostio
Heledd.Fychan@rctcbc.gov.uk

## Rhys Dafis yn hel atgofion

Cyfle i gofio am rhai o ddosbarthiadau nos barddol Bethlehem Gwaelod y Garth yn Cylch Cadwgan Clwb y Dwrlyn ym mis Tachwedd. Rhys Dafis fu'n cynnal y dosbarthiadau Nyddu Cynganeddion dros gyfnod o bymtheg mlynedd gan ddenu 79 o feirdd gwahanol ac ysbrydoli rhai o fawrion y genedl yn cynnwys un Enillydd Coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhyrchwyd 5 tîm gwahanol ar gyfer cyfresi talwrn y Beirdd a phinacl bob blwyddyn oedd y cinio mawreddog yng nghwmni'r



Prifardd Jim Parc Nest.

Yn ystod y noson cafwyd feirniadaeth o dasg Eisteddfod Cadwrlyn sef gorffen pennill yn cychwyn "Y mae nghariad i'n wahanol". Daeth 35 ymgais a dyma'r enillydd -

**Y mae nghariad i'n wahanol**
Ers gweld dechrau'r cyfnod clo,
Mynnu mae mai dim ond rhithiol
Fydd ein serch, nes dw i o 'ngho!
Cawsom ddêt drwy gyfrwng iPad -
A sibrydais "Ti mor cute!"
Ond daeth ateb oer, di-deimlad:
"Twpsyn gwrion! Ti ar mute!"

*Eros ap Aphrodite*
*(Emlyn Davies)*

Diolch i Rhys am noson ddifyr. Y Zoom wedi dod â'r de a'r gogledd yn agosach unwaith eto.

**Grotto Siôn Corn**
Bydd Grotto Siôn Corn yn Amgueddfa Pontypridd rhwng 11am-3pm ar 4, 11 a 18 o Ragfyr. Nid oes rhaid archebu lle ymlaen llaw a'r gost fydd 50c.

**Etholiadau'r Cyngor**
Mae Plaid Cymru Pontypridd yn chwilio am ymgeiswyr i redeg ar gyfer etholiadau Cyngor Rhondda Cynon Taf a cynghorau tref a chymuned lleol ar gyfer mis Mai flwyddyn nesaf. Os hoffech sgwrs i drafod y rôl, mae croeso ichi gysylltu gyda Chadeirydd yr etholaeth, Geraint Day, drwy ebostio
geraintday@plaid.cymru

**Croeso cynnes i'n Prif Weithredwr newydd!**

Mae'n bleser cael croesawu Osian Rowlands fel Prif Weithredwr newydd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Dechreuodd Osian yn ei swydd newydd ar yr 22ain o Dachwedd.



Helo, shw mae!

Fy enw i yw Osian Rowlands, a dwi'n falch iawn fy mod bellach wedi dechrau ar fy swydd fel Prif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.

Yn enedigol o Gaerffili, ges i fy addysg yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd ac yna Ysgol Gyfun Rhydfelen. Bues i'n ffodus i gael cymaint o brofiadau yn y ddwy ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol ac mewn amrywiaeth o feysydd boed yn gerddorol, chwaraeon, drama a theithiau, a'r cwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae fy niolch yn fawr i'r holl athrawon oedd yn rhoi cymaint mwy o'u hamser na'r oriau ysgol i gynnig y profiadau arbennig yma.

Yn dilyn hynny, es i ymlaen i astudio Hanes a Hanes Cymru yn y Coleg Ger y Lli yn Aberystwyth a thaflu fy hun i holl weithgareddau bywyd Neuadd Pantycelyn cyn dychwelyd i Gaerdydd i astudio'r llais yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru.

Ar ôl blwyddyn o weithio fel athro canu peripatetig yn Rhondda Cynon Taf bues i'n ffodus o gael swydd gyda Cherddorfa a Chorws Genedlaethol Gymreig y BBC, yn rheoli'r corws a datblygu rhaglen addysg a chymuned yr adran. Ces i brofiadau gwych yn ystod y 16 mlynedd gyda'r adran, yn gweithio gyda cherddorion, arweinyddion ac unawdwyr proffesiynol rhyngwladol, cynhyrchu cyngherddau megis 'Cyw a'r Gerddorfa', Gala Gŵyl Ddewi gydag unawdwyr megis Bryn Terfel, Catrin Finch, Gwyn Hughes Jones a Rebecca Evans, comisiynu gweithiau newydd gan gyfansoddwyr megis Paul Mealor, Gareth Glyn a Karl Jenkins. Cefais hefyd y rhyddid i arbrofi a defnyddio'r gerddorfa mewn arddulliau newydd, fel ein cyngerdd Gŵyl Ddewi gyda'r grŵp gwerin Calan yn 2019 a datblygu'r rhaglen sydd erbyn hyn yn hynod lwyddiannus ar y cyd â BBC Radio Cymru ble mae'r gerddorfa yn cyd-weithio gydag artistiaid Cymraeg. Bues i'n ffodus i gael teithio tipyn gyda'r adran hefyd - treulio wythnos ym Mhatagonia yn rhedeg gweithdai canu (trwy gyfrwng y Gymraeg!) a chael cyd-weithio gyda fy nghyn-athrawes gerddoriaeth o Rydfelen, Catrin Heledd Morris. Hefyd, cael datblygu partneriaeth rhwng Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Cherddorfa Genedlaethol Llydaw a chael agor eu neuadd gyngerdd newydd nhw yn Rennes, gyda chymorth Llywodraeth Cymru (a hyn wedi Brexit!).

Tu allan i fywyd gwaith, mae cerddoriaeth wedi chwarae rhan fawr yn fy mywyd i. Un o'r pethau cyntaf gwnes i ar ôl dychwelyd i Gaerdydd wedi'r cyfnod yn y Brifysgol, ar y cyd gyda fy ffrind ysgol Gavin Ashcroft, oedd mynd ati i sefydlu Aelwyd CF1, i ni allu parhau â'r bwrlwm o Gymreictod brofon ni yn Aberystwyth yn y ddinas. Bues i'n canu gydag Only Men Aloud (cyn iddyn nhw ddechrau dawnsio!) a Serendipity, a dwi'n parhau i ganu gyda Cywair a Chantorion John S Davies. Dwi hefyd wedi sefydlu C.O.R (Côr Osian Rowlands - dim fi ddaeth lan â'r enw, y bardd Emyr Davies wnaeth gan fod ni'n cael trafferth meddwl am enw gwreiddiol!). Y bwriad gwreiddiol oedd i godi arian pan ddaeth Eisteddfod yr Urdd i Gaerffili yn 2015, ond mae C.O.R wedi parhau ac wedi cael profiadau arbennig, o recordio cyfieithiad Cymraeg Offeren St Ioan - Bach gydag Elin Manahan Thomas, i deithio i Ŵyl Gerddorol Abu Dhabi i berfformio gyda Syr Bryn Terfel, recordio CD pen-blwydd rhaglen Caniadaeth y Cysegr yn 70 i BBC Radio Cymru ac ymddangosiadau cyson ar Dechrau Canu Dechrau Canmol i'n cyngherddau Nadoligaidd a Phasg blynyddol yng Nghaerffili. Dros yr ŵyl bydd lleisiau rhai o fois y côr i'w clywed ar ffilm animeiddio Aardmam ar Netflix, Robin Robin!

Drwy'r byd cerddorol a chyd-ganu gyda Cywair cwrddais i â fy ngwraig, Fflur, ac mae dau o blant gyda ni, Dewi a Betsan, sy'n ein cadw ni'n ddigon prysur ac yn llawn hwyl a direidi!

Wrth ddod i ddiwedd fy wythnos gyntaf yn y swydd, mae'r tîm bach o weithwyr sydd gyda'r Fenter yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn groesawgar a chefnogol iawn.

Mae yna dipyn o waith a heriau o'n blaenau ni, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr at hyn, gyda'ch cymorth chi.

Dwi'n awyddus iawn i glywed gennych chi i adeiladu ar y rhaglen waith prysur ac amrywiol sy'n rhedeg gan y Fenter yn barod.

Fy nghyfeiriad e-bost yw osianrowlands@menteriaith.cymu neu os ydych chi yn ardal y Porth ac eisiau paned a sgwrs yn yr Hen Lyfrgell, galwch mewn i ddweud helo!



**Miwsig**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Mei Gwynedd wedi ymweld â thair ysgol er mwyn gweithio gyda gwahanol dimau TIM (Timau Ieuenctid Menter). Yn ddiweddar, bu Mei yn Ysgol Llanhari yn trosi, trefnu, perfformio a recordio gyda chriw o ddisgyblion o flwyddyn 9 - 13. Bydd fideo o'r gân hon yn cael ei ryddhau ar y cyfryngau cymdeithasol erbyn y Nadolig.

**Prosiect Medrau – trwy rannu mae dysgu!**

Beth am ddathlu sgiliau ein cymuned?

Oes gennych chi sgil bach syml i'w rannu? Does dim rhaid ichi fod yn arbenigwr. Efallai eich bod yn mwynhau garddio, coginio, creu steiliau gwallt neu rywfaint o DIY? Dros y flwyddyn diwethaf, mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi bod yn creu fideos bach byr i rannu sgiliau handi ar-lein. Os oes gyda chi rhywbeth i rannu, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!

Ewch i'n sianel YouTube i weld enghreifftiau neu ymunwch â'r grŵp Prosiect Medrau ar Facebook. Os oes diddordeb gyda chi gymryd rhan yn y prosiect, cysylltwch â marged@menteriaith.cymru.

**Gaeaf Llawn Lles**

Mae'r Fenter yn edrych ymlaen at allu cynnig rhaglen o weithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd dros gyfnod y gaeaf. Bydd y rhain yn cynnwys gweithgareddau megis Stori a Charolau gyda Mrs Corn, gweithdai crefftau Nadoligaidd, clwb gemau bwrdd misol a mwy! Dilynwch ni ar Facebook, Twitter ac Instagram am y newyddion a datblygiadau diweddaraf!

**Dilynwch ni!**

**Facebook:** @MenterRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct



# Curo'r Corona'n Coginio

**Eluned Davies-Scott**

## Y Pwdin Nadolig



*'Stir up, we beseech thee, O Lord, the wills of thy faithful people,'* yw geiriau agoriadol y Llyfr Gweddi Gyffredin. A yw'n wirioneddol gredadwy bod yr awdur yn meddwl am bwdin Nadolig wrth gyfansoddi'r weddi hon? Os ddarllenwch chi erthyglau am 'Stir up Sunday' maent yn honni mai'r geiriau 'stir-up' yw'r rheswm dros y 'traddodiad' o aelodau'r teulu'n dod at ei gilydd i gymysgu pwdin Nadolig ar y Sul cyn cychwyn tymor yr Adfent. Roedd 13 cynhwysyn yn y pwdin i gynrychioli Crist a'r disgyblion ac roedd rhaid troi'r cymysgedd o'r Dwyrain i'r Gorllewin fel symbol o daith y Doethion. Honnir y byddai plant yn cael dysgu'r cynhwysion wrth i bawb gael tro i droi'r pwdin am lwc dda. Tybed faint o dystiolaeth sydd fod hyn i gyd yn wir? A'i ffantasi Fictoraidd am ddelwedd Nadolig delfrydol yw hyn?

Dwi ddim yn arbenigwr mewn hanes ac nid wyf yn siŵr faint o wirionedd sydd ychwaith i'r wybodaeth sy'n ymddangos ar y we fod yr Eglwys Babyddol yn Lloegr wedi penderfynu tua'r 1540 y dylid gwneud y pwdin ar y 25ain ddydd Sul ar ôl Sul y Drindod, fod pwdin Nadolig yn arferol erbyn 1650 a bod y Piwritaniaid wedi ei wahardd yn 1664 fel arfer gwael.

Honnir fod gwreiddiau pwdin Nadolig mewn 'pottage' neu 'frumenty', stiwiau tebyg i uwd. Byddai hyn yn cael ei fwyta fel bwyd ympryd wrth baratoi ar gyfer dathliadau'r Nadolig. Tybed felly, a fyddai'n arferol i gael y cynhwysion sy'n cael ei rhestru gan rhai ffynonellau h.y. wedi'u gwneud o gig eidion, cig dafad, grawn, prŵns, rhesins, gwinoedd a sbeisys yn arferiad go iawn os oedd hwn yn fwyd ar gyfer ymprydio fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y Nadolig yn enwedig gan y werin rai? Braidd yn fwyd rhy gyfoethog ar unrhyw amser, credwn i.

Yn ôl fy ymchwil i, cafodd y pwdin plwm wedi'i wneud o gig eidion, sbeisys, siwgr a ffrwythau ei fwyta ar Noswyl Nadolig ar ôl diwedd cyfnod ymprydio, ac yna ei storio am wythnosau (doedd dim gwastraffu bwyd y pryd hynny). Erbyn y 1800au, roedd ffyrdd o gadw cig wedi gwella a dechreuodd y pwdin fynd yn llai sawrus. Dros y canrifoedd, esblygodd ryseitiau i gynnwys wyau, briwsion bara, cnau, ffrwythau sych, cwrw a gwirodydd, sy'n ymdebygu'n agosach i'r pwdinau rydyn ni'n eu bwyta heddiw.

Erbyn yr 17eg ganrif, roedd pwdin Nadolig yn cael ei alw'n bwdin eirin (plwmwns), er gwaethaf y ffaith nad oedd eirin hyn byth yn gynhwysyn - ar y pryd, roedd 'eirin' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ffrwythau sych o unrhyw amrywiaeth. Ym 1714, gofynnodd y Brenin Siôr 1af, a elwir The Pudding King, am bwdin eirin fel un o lawer o bwdinau yn ei wledd Nadolig brenhinol gyntaf. Erbyn y 1830au roedd pwdin Nadolig bron yn gyfan gwbl felys ac yn gysylltiedig â thymor yr ŵyl.

Cyhoeddodd Eliza Acton un o'r ryseitiau cyntaf ar gyfer pwdin Nadolig yn *Modern Cookery for Private Families* (un o'r llyfrau coginio cyntaf erioed ym Mhrydain) yn 1845. Roedd y rysáit yn galw am flawd, briwsion bara, siwed, rhesins, cyrens, briwgig afalau, siwgr, croen oren candi, nytmeg wedi'i gymysgu â byrllysg, halen, brandi ac wyau.

Gosododd y Frenhines Victoria a'r Tywysog Albert esiampl frenhinol i weddill y genedl o sut i ddathlu'r Nadolig ac efallai trwy drio dilyn eu hesiampl y dechreuodd y pwdin ddod yn rhan hanfodol o wledd y Nadolig.

Yng Nghymru y mae'r pwdin berwi, yn llawn ffrwythau a sbeis, wedi ei gysylltu â'r Nadolig ers y ddeunawfed ganrif. Yr hen drefn oedd berwi'r cymysgedd yn un lwmp mawr mewn cwd lliain - yr arfer a roddodd iddo'r enwau pwdin lwmp, pwdin clwt neu bwdin cwd. Byddai gwddf y cwd yn cael ei rwymo â llinyn a'i grogi wrth ddarn o bren a rhoi ar draws y crochan fel bod y pwdin yn hongian i mewn yn y dŵr berw.

Hanner tymor mis Hydref fyddai'r amser traddodiadol i ni baratoi ein pwdinau ar gyfer y teulu cyfan gyda'r gegin yn llawn stêm ac anwedd. Mae rhai yn son am baratoi pwdin o'r fath ar gyfer diwrnod dyrnu ar fferm. Mae rysáit mewn cylchgrawn gan wraig o Dreffynnon yn cyfeirio at baratoi pwdin



Nadolig o rysáit sydd mewn hen lyfr Stork Margarine tua 40 oed a'i wneud yn draddodiadol ar gyfer Dydd Gwener y Groglith. Mae cofnod yn llyfr Minwel Tibbott fod pob aelod o deulu gwraig o Ddowlais yn cymryd ei dro ar gymysgu'r pwdin a chael gwneud dymuniad 'cudd', byddai hefyd ddarnau o'r hen dair neu chwe cheiniog yn cael eu cuddio yn y pwdin.

Mae arferiad o gynnwys darnau arian mewn pwdin Nadolig yn dyddio'n ôl mor gynnar â'r 1300au pan gafodd pys sych neu weithiau fodrwy arian neu goron ei bobi i mewn i Gacen Deuddegfed Nos. Byddai darganfyddwr yn cael bod yn frenin neu'n frenhines am y noson. Credwyd hefyd byddai dod o hyd i ddarn arian Nadolig yn eich tafell o bwdin yn dod â lwc dda a chyfoeth yn y flwyddyn i ddod.

Diddorol gwylied Ena yn paratoi pwdin Nadolig ar raglen Heno yn 1996 (mae ar YouTube) - lot o frandi, ffrwyth sych gan gynnwys prŵns a bricyll sych, briwsion bara a soda pobi. Yna gadael y cymysgedd sefyll dros nos cyn ei roi mewn basnau a'i bobi mewn bain-marie, nid ei ferwi. Mae rysáit arall yn llyfr Minwel Tibbott yn defnyddio triog, soda pobi a llaeth enwyn cyn ei roi i stemio.

Mae Tony Naylor (sy'n ysgrifennu ar gyfer sawl cylchgrawn cenedlaethol) yn gofyn pam ydyn ni'n bwyta cymaint o fwydydd a blasau 'tymhorol' na fyddem fel arfer yn meddwl eu bwyta gyda'r Nadolig yn dod yn brawf dygnwch o fwydydd stodgy, sbeislyd, gludiog? Rhaid imi gyfaddef fy mod yn rhannu ei feirniadaeth. Dyma pam fyddwn ni ddim yn cael pwdin Nadolig eto eleni ond yn mwynhau ein hoff bwdinau fel Fflan grawnwin a creme patissiere a Tharten Frangipane Gellyg ac Almon (rysáit Michel Roux Jnr). Nadolig Llawen i chi gyd.



# Ysgol Tonyrefail

**Wythnos Gwrth Fwlio**
Yn ystod wythnos gwrth-fwlio bu'r holl ddosbarthiadau yn cynnal gweithgareddau i hyrwyddo'r neges. Ffocws y gwasanaethau eleni oedd stori 'Pobol Drws Nesaf' gan Manon Stefan Ros. Cafwyd nifer o drafodaethau diddorol iawn am gynnwys y stori.





Bl4 a 5 gweithgareddau wythnos gwrth-fwlian

**Gŵyl Hanes Cymru i Blant – Hanes Tryweryn**
Fel rhan o Ŵyl Hanes Cymru i Blant cafodd Blynyddoedd 4 - 6 gyfle i wrando ar gyflwyniad ar hanes boddi Tryweryn gan Rhodri Morgan o adran addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r plant yn dysgu am hanes Tryweryn fel rhan o'u gwaith thematig y tymor yma ac roedd cael gweld y gwahanol ffynonellau o dystiolaeth yn werthfawr iawn. Diolch yn fawr iawn i'r Llyfrgell a'r Ŵyl am y profiad.




**Llwyddiant Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i Erin Larkman ar ei llwyddiant mewn cystadleuaeth gymnasteg yn ddiweddar. Mae Erin yn hyfforddi gyda Fusion Gymnastics ym Mhontyclun.





**Plant Mewn Angen**
Diolch i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu'r gwahanol weithgareddau ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen. Cadw'n heini oedd y prif thema ac fe fuodd yr holl ddosbarthiadau yn chwys domen ar ôl cymeryd rhan! Diolch i bawb am eu cyfraniad, fe gasglwyd £216 ar gyfer yr elusen.

**Hanukkah**
Rydym wedi bod yn edrych ar ddathliadau Hanukkah yn yr ysgol ac mae'r plant wedi dysgu llawer am y gwahanol arteffactau ac arferion sydd yn gysylltiedig â'r dathliad.




Dysgu am Hannukkah




**Gweithgareddau Pwer Pedal**
Daeth Aled Vaughan Owen o gwmni Ynni Da i gynnal diwrnod o weithgaredd Pwer Pedal gyda dosbarthiadau Blwyddyn 1 i 6. Roedd pawb wedi mwynhau'r gwahanol weithgareddau ac wedi cadw yn heini yr un pryd!



# Nadolig llawen yng nghwmni Menter Caerdydd

Mae'r Nadolig yn agosáu ac mae corachod prysur Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wedi paratoi llond sach o weithgareddau tymhorol ar eich cyfer.

Yn goron ar y cyfan bydd Ffair Nadolig yng Nghapel Salem, Treganna, ddydd Sul, 12 Rhagfyr rhwng 1.00 a 3:30yp. Yn ogystal â sesiynau Amser Stori yng nghwmni Siôn Corn, bydd stondinau amrywiol yn cynnig cyfle i'r oedolion siopa am anrhegion wrth fwynhau gwydraid o win poeth a mins pei. Mae mynediad am ddim a chroeso i bawb.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu hefyd i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar gyfer 'Miwsig a Mins Peis' a gynhelir mewn partneriaeth â Live Music Now. Y soprano Jess Robinson a'r pianydd Michael Blanchfield fydd yn ein diddanu gyda chaneuon Nadoligaidd mewn cyngerdd anffurfiol sy'n rhad ac am ddim. (16 Rhagfyr, 12.00yp)

Bydd nifer o sesiynau tymhorol yn cael eu cynnal ar Zoom. Ymunwch â Wendy o Blodau Blodwen wrth iddi greu addurniadau syml ond trawiadol a bydd Nerys Howell yn cynnig tamaid i aros pryd mewn sesiwn sy'n canolbwyntio ar fwydydd bys a bawd fydd yn plesio pawb.

Elinor Wyn Reynolds fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis gan drafod yr her o ddewis darnau amrywiol ar gyfer y gyfrol, Llyfr Bach Nadolig. Yn y Clwb Cerdd, Ynyr Roberts o Brigyn fydd gwestai Patrick Rimes i drafod rhai o'i hoff ganeuon Nadoligaidd.


Bydd Ian Williams o'r Bocs Teisennau'n cynnal gweithdy coginio Nadoligaidd i blant ym mlynyddoedd 4-6 ar 14 a 21 Rhagfyr.

*Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Fenter yn ystod 2021. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni eto yn y Flwyddyn Newydd ac at groesawu ambell wyneb newydd i'n gweithgareddau!*

*Ond tan hynny, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth y tîm i gyd!*

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 2068 9888**

## Llyfr Newydd am Hanes Cymru




Yn y gyfrol hon, mae'r hanesydd Elin Jones yn dangos bod olion gorffennol Cymru o'n cwmpas heddiw. Mae'n mynd â ni ar daith weledol drwy dros 5,000 o flynyddoedd o hanes ac o gwmpas Cymru gyfan. Llyfr hanfodol ar hanes Cymru i bob ysgol, disgybl ac athro. Ar gael yn Saesneg hefyd: History Grounded.

Oes, mae darnau o hanes mewn amgueddfeydd a llyfrgelloedd – ond maen nhw yma hefyd, mewn hen luniau, enwau lleoedd, ar fapiau ac mewn olion hen adeiladau ar lechwedd mynydd neu ar lan y môr. Bydd y llyfr hwn yn eich helpu i wybod ac i ddeall yr hanes, lle bynnag ydych chi yng Nghymru. Bydd yn sbardun ichi chwilio am ragor o ddarnau o'n gorffennol.

Pwy oedd y bobl gyntaf oll i fyw yng Nghymru? Pam fod Glyndŵr mor bwysig i'r Cymry? Beth oedd rhan Cymru yn y fasnach gaethweision? Pa ddylanwad gafodd y môr ar ein hanes? Dewch i chwilio am rai o'r atebion!

Bu'r awdur, Elin Jones, yn dysgu yn ysgolion uwchradd Preseli, Rhydfelen a Chwm Rhymni cyn cael ei phenodi'n swyddog addysg yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Yn y swyddi hyn i gyd roedd disgwyl iddi gynefino â phob cyfnod o hanes Cymru, a chafodd gyfle i gyd-weithio gydag arbenigwyr ac i baratoi adnoddau ar gyfer dysgwyr o bob oedran a gallu. Ym 1996 dechreuodd wneud gwaith ymgynghorol gydag Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, gyda chyfrifoldeb dros reoleiddio'r cymwysterau hanes, datblygu'r cwricwlwm a chomisynu adnoddau dysgu hanes. Bu'n cadeirio'r tasglu oedd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad i'r Gweinidog Addysg ar Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru yn 2013. Mae'n westai poblogaidd wrth drafod straeon a chymeriadau o hanes Cymru ar raglenni Radio Cymru.

Hanes yn y Tir gan Elin Jones.
Gwasg Carreg Gwalch. £16.50
Addas i oed 9-11+

## Ysgol Evan James

**Diwrnod gwyrdd a glas COP 26**

Roedd yr ysgol yn fôr o liw ar ddydd Gwener, Tachwedd 12fed pan wisgodd pawb ddillad gwyrdd a glas i hybu ymwybyddiath o newid hinsawdd, Roedd yn wythnos COP26 ac roedd y Cyngor Eco yn awyddus i bob dosbarth feddwl am ffyrdd i ddiogelu'n hamgylchfyd. Roeddem yn hynod o ffodus gan ein bod wedi derbyn neges gan Heledd Fychan, Aelod o'r Senedd, a oedd yn Glasgow yn COP26 yn dymuno'n dda i'r ysgol gyda'n hymdrechion i fod yn fwy gwyrdd.

**Sul y Cofio**

Cawsom wahoddiad i fynychu gwasanaeth Sul y Cofio ym Mharc Ynysangharad eleni. Daeth criw o ddisgyblion blwyddyn 6 i orymdeithio yn y parc a chymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig.



**Yr arweinwyr digidol yn brysur**

Mae'r arweinwyr digidol wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf. Maent wedi gwneud awdit o'r adnoddau digidol sydd yn yr ysgol. Maent hefyd wedi dosbarthu Chromebooks newydd sbon i bob dosbarth yn yr adran iau. Diolch i chi.



**Coeden Nadolig**



Cawsom goeden Nadolig yn rhodd gan Gyngor Tref Pontypridd ac mae hi'n edrych yn wych yn neuadd yr ysgol. Diolch i'r Cyngor am ei haelioni. Mae'r plant wedi dewis addurniadau coch eleni ac mae cyffro'r Nadolig wedi dechrau.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Cafwyd diwrnod o hwyl unwaith eto eleni. Er mwyn codi arian, roedd rhai disgyblion yn gwisgo pyjamas neu "onesie" ac eraill yn gwisgo lliwiau Pydsi. Diolch i'r Senedd a'r Cyngor Iechyd a Lles am werthu nwyddau Plant Mewn Angen bob dydd ar iard yr ysgol yr wythnos honno. Gwerthwyd pob dim! Diolch hefyd i'r rhieni am fod mor hael.

**Gemau pêl-droed**

Roedd hi'n hyfryd cael cynnal gemau pêl -droed yn erbyn Ysgol Tonysguboriau ddiwedd y mis. Roedd 4 tim gan yr ysgol, 2 dîm o flynyddyddoedd 3 a 4 a 2 dîm o flynyddoedd 5 a 6. Roedd pawb wrth eu bodd ac fe wnaeth pawb yn wych. Diolch i Mr Rowlands, Mrs Foster a Mrs Evans am drefnu'r prynhawn.







# Sêl dros y Gymraeg

**Cyfweliad â'r Dr Lisa Sheppard**
(Erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Gloran, papur bro Blaenau'r Rhondda Fawr).

**Beth yw eich cefndir ?**

Ces i fy ngeni ym Mhentre'r Eglwys, cyn symud i Gwmafan yn ddwy oed oherwydd gwaith fy nhad. Yno, fe fynychais Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, cyn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Ystalyfera. Yn ddeunaw, symudais i Gaerdydd i astudio Cymraeg a Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yno y bûm i am yr 11 mlynedd nesaf, yn gyntaf yn gwneud BA ac MPhil, wedyn PhD ar ffuglen Gymreig gyfoes, ac yna fel darlithydd yn y Gymraeg.

Erbyn hyn rwyf i wedi cau'r cylch, fel petai, a dychwelyd i Bentre'r Eglwys i fyw gyda fy ngŵr, Dan, a'n mab, Iestyn. Cefais fy magu ar aelwyd Saesneg ei hiaith yn bennaf, gyda mam yn siarad rhywfaint o Gymraeg, ond wrth i mi a'm cefndryd fynychu ysgolion Cymraeg, fe ddaeth cyfrannu at y diwylliant Cymraeg yn bwysig iawn imi – bûm yn cystadlu mewn eisteddfodau erioed, yn canu mewn corau ac yn chwarae pêl-rwyd yng nghystadleuthau'r Urdd. Mae'n braf felly cael ymuno ag aelwyd unwaith eto!

**Beth am eich swydd bresennol?**

Ers 2018, rwyf wedi gweithio i Uned Gwasanaethau Cymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel Uwch Gyfieithydd. O ddydd i ddydd, rwy'n cyfieithu ystod o ddarnau o waith i'r Gymraeg a'r Saesneg, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gyfathrebu â chynghorwyr a pharatoadau'r cyfarfodydd pwyllgor.

Rwyf hefyd yn prawfddarllen gwaith cyfieithwyr yr uned – mae rhan helaeth o'r gwaith hwnnw yn mynd at y cyhoedd i roi gwybod am ddigwyddiadau a gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnal yn ei barciau, ei ysgolion a'i ganolfannau cymuned. Ein nod yw sicrhau bod pobl Rhondda Cynon Taf yn gallu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r graddau helaethaf posibl, a bod anogaeth a chefnogaeth ar gael i'r Gymraeg a'i siaradwyr, beth bynnag yw eu gallu yn yr iaith. I'r perwyl hwnnw, rydyn ni fel cyfieithwyr yn gweithio'n agos gyda'r Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi a'r Tiwtor Cymraeg i sichrau bod gan y Gymraeg le blaenllaw yn y Cyngor. Mae nifer helaeth o'n cyfieithwyr hefyd yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sy'n dyst i safon ein gwaith, a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i drigolion yr ardal.



**Rwy'n clywed eich bod chi'n aelod o Aelwyd Cwm Rhondda.**

Ymunais ag Aelwyd Cwm Rhondda yn 2019, ar ôl i'm cydweithiwr Tom (un o sefydlwyr yr Aelwyd, a'i Thrysorydd) fy annog i ymuno. Roeddwn i wastod wedi mwynhau canu mewn côr pan oeddwn i yn yr ysgol, felly teimlwn ei bod hi'n hen bryd i mi ymuno! Ond roedd rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn i'n gallu cyrraedd y nodau uchel fel y gallwn i yn fy arddegau, felly rwy'n aelod ffyddlon o adran yr altos erbyn hyn!

Cefais fy ethol yn Ysgrifennydd yr Aelwyd yn haf 2019, ac rwy'n mwynhau helpu trefnu cyngherddau a'n perfformiadau mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae'n braf bod nôl yn ymarfer yn wythnosol gyda'r Aelwyd yng Nghapel Hermon, ar ôl inni orfod cadw draw am 18 mis oherwydd Covid-19. Rydyn ni wrthi'n paratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig ar hyn o bryd, a'r gobaith yw y byddwn ni'n parhau i ddenu aelodau newydd.

Rydyn ni wir yn edrych ymlaen at ddyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i Rhondda Cynon Taf yn 2024 – fel Aelwyd, mae'n gyfle inni ddangos cyfoeth diwylliant Cymraeg y Rhondda a'r cymoedd cyfagos, a faint o bobl leol sy'n cyfranogi ohono, felly rydyn ni wir yn gobeithio fydd ein haelodaeth yn parhau i dyfu yn y cyfnod cyn ac ar ôl yr Eisteddfod.

**Oes gennych chi ddiddordebau eraill?**

Yn ogystal â chanu, rwy'n dwlu ar ddarllen – wel, roedd rhaid mod i'n ei hoffi i wneud doethuriaeth ym maes ffuglen! Rwy'n mwynhau ffuglen Cymraeg a ffuglen Saesneg Cymru yn bennaf – dydy llenyddiaeth Saesneg Cymru ddim yn cael llawer o sylw yng Nghymru na thu hwnt, felly rwy'n achub ar y cyfle bob tro i sôn wrth bobl amdani. Fy ngwir diléit, serch hynny, yw darllen llyfrau 'true crime' neu hunangofiannau gwleidyddion, rhai o America yn bennaf (rwy'n darllen hunangofiant Barack Obama ar hyn o bryd). Yn ogystal â darllen, rwy'n mwynhau gwrando ar bodlediadau am wleidyddiaeth, hanes, ffilmiau a throsedd.

Rwy'n aelod o bwyllgor Eisteddfod y Rhondda hefyd, a sefydlwyd y llynedd yn nghanol pandemig Covid-19. Rydyn ni newydd gynnal ein hail eisteddfod rithiol, gyda chystadleuwyr yn cyfrannu o lefydd mor amrywiol – o Bontypridd i Bangladesh!

Rwy'n chwarae pêl-rwyd yng Nghaerdydd yn wythnosol, ac yn mwynhau cadw'n heini tua tair gwaith yr wythnos.

Mae fy nosweithiau'n brysur iawn ar hyn o bryd gyda fy mab bach 17 mis oed i'w fwydo a'i roi i'r gwely, ond pan fydd gen i amser rwy'n dwlu ar goginio gwledd o fwyd i'm gŵr a minnau – mae mam yn gogydd heb ei hail a dysgais bopeth ganddi, felly rwy'n hoffi rhoi cynnig ar bethau newydd yn ogystal â choginio'r hen ffefrynau.

Ein hoff fwydydd fel teulu yw bwyd Eidalaidd a bwyd Sbaenaidd, ac rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn i fynd ar lawer o wyliau tramor i allu blasu'r prydau o lygad y ffynnon. Ymhlith fy hoff lefydd rwyf wedi teithio iddyn nhw mae Fenis, Melbourne a Bilbao.

**Oes unrhyw newid yr hoffech chi ei weld yn digwydd yn yr ardaloedd hyn?**

Yn rhan o'm swydd bresennol, rwyf wedi dod i sylweddoli dyfnder a chyfoeth diwylliant Cymraeg y Cymoedd, a theimlo trueni na chefais i na'm ffrindau y cyfle i ddysgu am y diwylliant a'r dreftadaeth Gymraeg a Chymreig a oedd reit ar stepen ein drws yn yr ysgol.


Mae cymaint o ddigwyddiadau pwysig yn hanes Cymru a'r byd wedi digwydd yma, ac mae'r cymoedd wedi bod yn gartref i rai o'n llenorion a'n beirdd Cymraeg a Saesneg mwyaf llwyddiannus neu ddylanwadol.

Oherwydd newidiadau mewn addysg ac agweddau tuag at y Gymraeg a Chymreictod o sawl cwr, mae'r sefyllfa'n newid ychydig, ond mae dal dipyn o ffordd i fynd nes inni roi i'n llenorion a'n beirdd lleol y clod y maen nhw'n ei haeddu. Rwy'n gobeithio bydd cyfle inni fel Aelwyd a'r Cyngor i helpu hyrwyddo'r elfen hon o dreftadaeth Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r daith tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2024, a'i gwaddol hefyd. Trwy hynny, rwy'n gobeithio y daw pobl trwy Gymru gyfan i sylweddoli pa mor arbennig yw'n diwylliant ni. Mae'n fy ngwylltio i weithiau pan fydd pobl yn meddwl nad oes braidd dim Cymraeg yng nghymoedd y de – mae etifeddiaeth Gymraeg gref gyda ni yma, ynghyd ag etifieddiaeth Saesneg ei hiaith sy'n bwysig hefyd, a dylwn ni glochdar amdanyn nhw'n fwy!

## Cyhoeddiadau Barddas yn Dathlu'r Deugain!

### CYMRU MEWN 50 CERDD

Lle, llên a llun: cyfuniad o dri pheth yw'r gyfrol hon. Mae hi'n gyfrol sy'n dathlu'r berthynas anhepgor rhwng beirdd a lleoliadau, yn ogystal â chyfoeth hanes ein gwlad drwy gyfrwng barddoniaeth, ffotograffau ac ysgrifau. Mae golygydd y gyfrol, y Prifardd Alan Llwyd, wedi dewis 50 cerdd arwyddocaol sy'n dweud rhywbeth arbennig am ein treftadaeth. Mae yma gerddi am draethau, adeiladau a mynyddoedd – lleoedd sydd wedi ysbrydoli ein beirdd ers canrifoedd lawer.




Ymysg cerddi'r gyfrol, ceir amrywiaeth helaeth o gerddi, o hen ffefrynnau i gerddi diweddar iawn. Rhai ohonynt yw 'Aberdaron' gan Cynan, 'Penrhyn Llŷn' gan Meirion MacIntyre Huws, 'Gaeaf yn Ninas Mawddwy' gan Elinor Gwynn, 'Llyn y Gadair' gan T. H. Parry-Williams, 'Bwgan Llyn Nantlle' gan Karen Owen, 'Climeri' gan Gerallt Lloyd Owen, 'Preseli' gan Waldo Williams' a 'Dere i Fferm y Grange' gan Catrin Dafydd.

Y ffotograffydd Iestyn Hughes fu'n gyfrifol am dynnu'r lluniau ac maent oll yn ychwanegu haen arall i'r gyfrol.

Cyhoeddir y gyfrol hefyd i dynnu sylw at y ffaith fod Cyhoeddiadau Barddas yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn eleni – y deugain oed. Deugain mlynedd yn ôl, y weledigaeth oedd i sefydlu cyhoeddwr llyfrau a fyddai'n dathlu ac yn cynnal ein traddodiad barddol. Golygydd cyntaf Cyhoeddiadau Barddas oedd y Prifardd Alan Llwyd, awdur y gyfrol hon. Pwy well, felly, i ddewis hanner cant o gerddi am leoedd yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r traddodiad barddol cyfoethog sydd gennym ni yma yng Nghymru?


**CYMRU MEWN 50 CERDD**
Golygydd: Alan Llwyd
Lluniau: Iestyn Hughes
Cyhoeddiadau Barddas £11.95


## Llyfrau Gwreiddiol Newydd i Blant

Mae cyfres hynod gyffrous newydd ei lansio gan Lyfrau Broga, sef *Enwogion o Fri*. Dyma gyfres hardd a lliwgar sydd wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc, oddeutu 3-7 oed, a fydd yn cyflwyno rhai o enwogion Cymru i blant, a hynny ar ffurf Llyfrau Gair a Llun.

Bydd artist ac awdur gwahanol yn creu pob cyfrol, ac felly bydd diwyg pob llyfr yn amrywio yn nôl y testun. Fe fydd gwir amrywiaeth yng nghyfraniadau'r unigolion, o artistiaid a beirdd i wyddonwyr ac unigolion ym myd chwaraeon. Dyma'r tri llyfr cyntaf yn y gyfres:

*Cranogwen - Bywyd Arloesol Sarah Jane Rees (Geiriau: Anni Llŷn. Lluniau: Rhiannon Parnis)*
*Gwen - Bywyd Lliwgar Gwen John (Geiriau: Casia Wiliam. Lluniau: Gwen Millward)*
*Shirley - Bywyd Byrlymus Shirley Bassey (Geiriau: Bethan Gwanas. Lluniau: Hanna Harris)*








Meddai Anni Llŷn am ei chyfrol ar fywyd Cranogwen:
"Roedd hi mor arloesol ac yn mynnu dal ati i wneud beth oedd hi eisiau. Ond nid yn unig hynny, gweithiodd i fod y gorau mewn meysydd yr oedd cymdeithas yn dweud na ddylai hi ac na allai hi wneud am ei bod hi'n ferch."

Mae'r gyfres *Enwogion o Fri* ar werth am £5.99 yr un ac ar gael yn y siopau llyfrau neu o wefan Gwales (www.gwales.com).

Yn ogystal gan Lyfrau Broga...

Ar gyfer plan hŷn, mae tri llyfr comic newydd dan faner Llyfrau Broga hefyd ar silffoedd ein siopau llyfrau lleol. Mae *Yr Allwedd Amser* gan Ben Hillman, *Rali'r Gofod 4002* gan Joe Watson a




*Gwil Garw a'r Carchar Crisial* gan Huw Aaron, i gyd yn llyfrau newydd, llawn lliw sydd wedi eu hanelu at blant 7 -12 oed. Tair stori gyffrous sydd yma ac mae'r wasg yn grediniol fod llyfrau comics yn ffordd wych o ddenu darllenwyr anfoddog neu anhyderus i agor y cloriau. Maent ar gael am £6.99 yr un yn eich siop lyfrau lleol neu ar wefan Gwales (www.Gwales.com) a www.broga.cymru

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 15fed o Dachwedd cawsom ni sgwrs ddiddorol iawn gan Phil Jonathan o Brifysgol Caerhirfryn (Lancaster) ar y testun Gwyddor Data ar Frig y Don. Daw Phil o Odre'r Graig yng Nghwm Tawe ac mae hefyd yn canu gyda Chôr Rhuthun. Aeth Phil â ni ar daith gyflym trwy y ddisgyblaeth o Wyddoniaeth Data gan gyffwrdd ar y cysylltiadau Cymreig sydd yn sylfaen i'r maes. Mae theorem y Parchedig Thomas Bayes yn un enwog iawn ym maes ystadegaeth (statistics) ond mae nifer yn awgrymu mai theorem Bayes-Price dylai fod, gan mai Richard Price o Llangeinwyr ger Pen-y-bont oedd yn gyfrifol am gyflwyno a dehongli gwaith Bayes ar ôl iddo farw. Roedd Richard Price yn un o gewri Cymru mewn nifer o feysydd gan gynnwys ystadegaeth, athroniaeth ac roedd yn arloeswr fel un o'r actiwarïaid cyntaf.

Yna soniodd Phil am broblemau gyda ffitio fformiwlâu i ddata, rhywbeth sy'n gyffredin iawn mewn gwyddoniaeth cyn trafod ambell i broblem ystadegol, fel sawl cymar posib sy'n rhaid i chi gwrdd cyn eich bod yn dod o hyd i rywun gallwch briodi! Nododd Phil ein dyled i'r Cymry William Jones am y symbol pi ($\pi$) ac i Robert Recorde am yr arwydd hafal (=) a phoblogeiddio yr arwydd adio (+), byddai mathemateg yn edrych yn wahanol iawn hebddynt. Yna aeth i sôn am un o hoff arfau yr ystadegydd sef dosraniadau (distributions) gan sôn yn arbennig am ddosraniad Pareto cyffredinoledig, sydd yn ein galluogi i broffwydo gwerthoeddeithafol mewn set o ddata.

Roedd hyn i gyd yn arwain at brif destun y ddarlith sef digwyddiadau eithafol ar y môr. Gellir cyfrifo y tebygolrwydd bydd digwyddiad morol yn achosi niwed i strwythur fel rig olew, cwch neu adeilad arfordirol. Gallwn gynnwys ffactorau amgylcheddol fel dyfnder y môr a chryfder y gwynt i greu model mathemategol gwerthfawr o'r risg. Wedi'r sgwrs cafwyd trafodaeth ddiddorol a soniwyd am Gwilym Meirion Jenkins yr ystadegydd a pheiriannydd systemau o Tre-Gwyr a weithiodd hefyd ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

Rhys Morris

Mae ein darlithoedd nawr wedi eu recordio. I'w gwylio cysylltwch â cymdeithas.wyddonol@gmail.com

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Plant Mewn Angen (llun)**
Diolch enfawr am yr holl gyfraniadau i Plant Mewn Angen - casglwyd £380. Bu'r Cyngor Ysgol yn gwerthu nwyddau Pudsey a bu'r disgyblion yn gwisgo dillad Pudsey, smotiog a lliwgar.



**Bronwen Lewis**
Roedd blwyddyn 5 a 6 yn ddigon lwcus i gael gweithdy gyda'r gantores Bronwen Lewis yn ystod mis Tachwedd. Cafodd pob un amser gwych ac i orffen y dydd cafwyd gig gan Bronwen gyda'r plant yn ymuno - arbennig!

**Cyngor Eco**
Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur iawn yn mwynhau gweithio yn y gymuned wrth ymweld â Little Lounge i helpu codi llysiau a threfnu nwyddau. Mae'r lle yn gwneud gwaith pwysig iawn yn y gymuned.





**Diwrnod Gwrth-fwlian**
I ddathlu ein bod ni i gyd yn wahanol ac i gefnogi wythnos gwrth-fwlian, gwisgodd staff a disgyblion yr Ysgol sanau od. Dyna draed lliwgar!!




# Parc Eirin, Tonyrefail ar 'Dan Do'

Roedd rhaglen 'Dan Do' S4C wedi rhoi sylw arbennig i ystad o dai arloesol yn Nhonyrefail.



Mae Parc Eirin yn bartneriaeth rhwng Grŵp Pobl, Sero a Cartrefi Tirion i ddatblygu 225 o dai carbon isel gyda 2, 3 neu 4 ystafell wely. Bydd y tai yn defnyddio egni adnewyddol yn cynnwys paneli solar, pwmp gwres tanddaearol a storfa batri gyda sustem rheolaeth clyfar.



Bu Cerys Williams Rheolwr Arloesedd Cwmni Sero yn egluro sut fydd y Peiriant Egni Adeilad yn dewis yr egni sydd fwayf rhad i gynhesu'r adeilad ac yn lleihau gwastraff. Bydd hyn yn cadw biliau'n isel ac yn lleihau ollyngiadau carbon. Bydd gan bob tŷ plwg i wefru car trydan.

# Clwb Rygbi Pentyrch

Enillodd y tîm cartref yn erbyn Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ddydd Sadwrn olaf mis Tachwedd. Daeth Côr Meibion Taf, oedd yn noddi'r gêm, i ddiddanu'r dorf hanner amser a rhoi perfformiad arbennig yn y clwb yn cynnwys rhai o'r ffefrynnau a charolau i'n paratoi at y Nadolig.



Cais i selio buddugoliaeth Pentyrch



# Ysgol Llanhari

**Llongyfarchiadau mawr Nia!**
Rydym yn hynod o falch o lwyddiant Nia Powell o flwyddyn 10 a fydd yn cynrychioli Cymru cyn diwedd mis Tachwedd mewn cystadleuaeth athletau rhyngwladol yn Glasgow. Mae Nia wedi gwneud ei marc ers sawl blwyddyn ym maes athletau ac erbyn hyn yn arbenigo yn yr amlgamp. Pob lwc i ti!



**Ymweliad gan Luke Fletcher AS**
Pleser oedd cael cwmni Luke Fletcher, cyn-ddisgybl sydd bellach yn Aelod Seneddol ym Mae Caerdydd ar ddechrau mis Tachwedd. Ymwelodd â'r Ysgol i drafod ei brofiadau a'r hyn a'i ysbrydolodd i fynd i wleidydda gyda'r cyngor ysgol ac yna gyda disgyblion blynyddoedd 12 a 13. Diolch yn fawr iddo ac i Manon Atoniazzi, o Gomisiwn y Senedd am roi o'u hamser.





**Newyddion o'r Adran Gymraeg**
Bu mis Tachwedd yn fis prysur i'r adran Gymraeg! Ar ddechrau'r mis teithiodd criw o flwyddyn 7 i Brifysgol Aberystwyth i gymryd rhan mewn




gweithdy ysgrifennu creadigol Scriblwyr a drefnwyd gan Ŵyl y Gelli. Profiad gwych i'r disgyblion oedd cael y cyfle i farddoni mewn gweithdai gyda beirdd nodedig fel Mererid Hopwwod ac Eurig Salisbury. Wythnos yn ddiweddarach, bu criw Llanhari sef Dyfan, Celyn, Lena a Hedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Talwrn y Beirdd a drefnwyd gan Urdd Gobaith Cymru. Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed campweithiau barddonol y criw yn y rownd derfynol cyn hir.

Ar ddiwedd y mis, troi trwyn y bws mini i'r Gogledd wnaeth Miss Rowlands wrth i griw y chweched fynychu cwrs preswyl Safon uwch yng Nglanllyn a drefnwyd gan Brifysgol Bangor. Treuliwyd tridiau arbennig iawn ar lan Llyn Tegid yn dysgu a thrafod y gwaith llenyddol sydd ar faes llafur Safon Uwch Cymraeg.




**Disgyblion Dosbarth Barcud ar eu beiciau!**
Yn ddiweddar derbyniodd aelodau dosabrth Barcud hyfforddiant seiclo gyda Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Rhondda Cynon Taf. Cyfle arbennig ac fe fwynhaodd pawb yn fawr iawn!








**Diwrnod Plant mewn Angen**
Yn ôl ein harfer, casglwyd swm teilwng iawn ar gyfer elusen Plant mewn Angen eleni, gyda'r disgyblion wrth eu bodd yn gwisgo'u pyjamas i'r Ysgol. Diolch yn fawr i ddisgyblion y chweched dosbarth am drefnu gwethgareddau i'r disgyblion iau.

**Gweithdai STEM Cymru**
Bu disgyblion blynyddoedd 5, 6 a 7 wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn gweithdai gyda ffocws ar dechnoleg yn ddiwedar. Cafodd blynyddoedd 5 a 6 y cyfle i ymuno â gweithdy Formula 1 gan greu ceir rasio a mwynahodd disgyblion blwyddyn 7 y profiad o gwblhau gweithdy Codio gyda Microbit.





# Ysgol Llantrisant



**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Bu'r plant yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau i ddathlu Diwrnod Plant Mewn Angen yn ddiweddar. Gwisgodd y plant eu dillad eu hunain hefyd i godi arian ar gyfer yr elusen. Diolch o galon i bawb a gyfranodd at yr achos - codwyd dros £600!





















**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau enfawr i Steffan am arwyddo cytundeb gyda chlwb pêl-droed Caerdydd. Gwych!






**Banc Bwyd**

Diolch yn fawr iawn i bawb roddodd tuniau o fwyd i Fanc Bwyd Taf Elai. Aethpwyd â llond car o fwyd i Eglwys Bethel, Pontyclun.





**Coffi Masnach Deg**

Diolch yn fawr iawn i Jenipher am sgwrsio gyda phlant Blwyddyn 6 am ffermio coffi masnach deg.



**Wythnos gwrth-fwlio**

Cymerodd y plant ran mewn nifer o weithgareddau drwy gydol yr wythnos bwysig hon.









**Dangos cerdyn coch i hiliaeth**

Gwisgodd blant yr ysgol ddillad coch i ddangos cefnogaeth tuag at ymgyrch dangos cerdyn coch i hiliaeth.














# Ysgol Garth Olwg

**Banc Bwyd**

Diolch yn fawr i'r holl rieni a staff oedd wedi cyfrannu tuag at 'Banc Bwyd Salem' dros y mis diwethaf.









# Ysgol Garth Olwg

## Sioe Teulu'r Addams

Ar y deunawfed o Dachwedd, cefais y pleser o wylio sioe gerdd arswydus, rhyfedd a disglair sef Teulu'r Addams. Dechreuodd y sioe gyda'r gân agoriadol ble cawsom ni ein cyflwyno i deulu'r Addams yn ogystal â'i holl hynafiaid. Roedd y gân yma yn fewnwelediad eglur i'r awyrgylch angheuol trwy gydol y sioe, gyda jociau cawslyd am farwolaeth a pherygl - mae wir yn sioe i bob oed. Yn annisgwyl, cariad odd prif thema'r sioe trwy fywyd pob cymeriad a oedd yn dangos agweddau gwahanol i fywydau anghonfensiynol teulu'r Addams. Er nad oedd y plot yn un i ganmol roedd y cast trawiadol yn gwneud y sioe werth ei gweld.



Mae'r cast gwych yn cynnwys Joanne Cliffton o Strictly Come Dancing fel Mortica Addams ac ail ymddangosodd Cameron Blakely yn ei rôl fel Gomez Addams. Roedd y rhyngweithio rhwng y ddau yn un o angerdd, cariad ac agosatrwydd ac mae'n anghredadwy nad ydyn nhw yn gwpwl go iawn. Agwedd oedd yn ychwanegu hiwmor parhaol odd rôl Lerch (Dickon Gough), gyda'r cerdded araf a'r rhwgnach doniol roedd y rôl yma yn un syml ond hynod o effeithiol.



Ond y peth mwyaf trawiadol o'r perfformiad oedd llais anghredadwy Kingsley Morton fel Wednesday, yn enwedig yn y gân 'One normal night'. Roedd pob nodyn yn berffaith gan adael pawb yn y gynulleidfa yn ddileferydd. Felly os ydych chi'n ffan o sioeau cerdd ysgafn, llawn hiwmor a lleisiau bythgofiadwy dyma'r sioe i chi.

Gan Bethan Lloyd, Blwyddyn 13.

## Cystadleuaeth y Siarter Iaith

Mae cystadleuaeth siarad Cymraeg i'r busnesau lleol wedi lansio ym Mhentre'r Eglwys a Thonteg. Felly defnyddiwch eich Cymraeg gyda'r siopau o gwmpas yr ysgol!





## Dysgu Cymraeg ail iaith yn Ysgol Aberdâr

Mae criw o ddisgyblion Blwyddyn 10 wedi bod yn brysur yn cynnal gweithgareddau Cymraeg ail iaith yn Ysgol Aberdâr er mwyn hybu'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddychwelyd ym mis Mawrth i gynnal rhagor o weithgareddau. Mae disgyblion yr Ysgol Isaf hefyd wedi bod yn ysgrifennu llythyron at ddisgyblion Ysgol Aberdâr er mwyn cyfarfod â ffrindiau newydd a hybu'r Gymraeg.




## Gweithdy Samba

Ddydd Gwener Tachwedd 19eg, cynhaliwyd gweithdy Samba i ddisgyblion blwyddyn 9 gan Mr Mark Galozzi-Hibbert. Roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am y gerddoriaeth fel rhan o'u thema Cerddoriaeth y Byd.





## Gŵyl y Gelli




Roedd y daith i Ŵyl y Gelli yn un hwyl iawn oherwydd cefais i'r cyfle i brynu llyfrau a gwrando ar awduron gwahanol. Gwelon ni Karl Nova ac roedd yn ysbrydoliaeth fawr yn clywed sut wnaeth e greu'r llyfr. Hefyd cawson ni ei lofnod. Roedd yn ddiwrnod hyfryd. Diolch yn fawr i'r Adran Saesneg am drefnu. Gan Annie Chalk, Blwyddyn 9.

## Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd

Llongyfarchiadau i ferched Blwyddyn 7 ac 8 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth plât yr Urdd gan golli 5-6 i Glantaf yn y rownd derfynol!




## Athletau

Llongyfarchiadau enfawr i Kara Bennett, Blwyddyn 10 ar ennill ras teulu Casnewydd.




## Banc Bwyd

Diolch yn fawr i'r holl rieni a staff oedd wedi cyfrannu tuag at 'Banc Bwyd Salem' dros y mis diwethaf.

Gwerthfawrogodd y Pwyllgor Cydraddoldeb holl ymdrechion cymuned Garth Olwg a pharodrwydd i helpu eraill o fewn ein cymuned leol. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth mawr i sawl teulu.

Lluniau tudalen 18

# Ysgol Garth Olwg

## Wythnos Gwrth-fwlio

Cawsom wythnos o weithgareddau gwych yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio y mis yma. Crëwyd 'Cadwyni Caredigrwydd' gan bob dosbarth lle cawsant y cyfle i ddweud rhywbeth hyfryd am ffrind a chlywed yr hyn oedd yn hyfryd amdanynt hwy! Gwrandawodd bawb ar stori Lemmy Lemwn hefyd trwy gydol yr wythnos ag ysbrydolodd bawb i ystyried teimladau eraill yn fwy. Diolch i Mrs. Spanswick am drefnu'r gweithgareddau gwych!



## Newyddion yr Ysgol Isaf

**Plant mewn Angen**

Cefnogodd blant yr Ysgol Isaf apêl Plant Mewn Angen eleni trwy wisgo dillad lliwgar a chyfrannu arian tuag at yr elusen. Mwynheuodd bawb wisgo yn wahanol am y diwrnod a gwelsom sawl Pydsi a Blush fach ar iard yr ysgol!



## Amser maith yn ôl

Ar ddechrau'r mis, cafodd dosbarthiadau blwyddyn 3 a 4 gyfle i ymweld â Chastell Caerdydd a dysgu am Yr Ail Ryfel Byd. Cawsant ddiwrnod penigamp yn dysgu amryw o ffeithiau newydd a chael cyfle i ymdrin ag arteffactau'r cyfnod. Yn dilyn hynny, roedd y disgyblion wedi cael eu hysbrydoli cymaint, trefnwyd 'Diwrnod Ifaciwi' yn yr ysgol gan greu llawer o arteffactau ei hunain a gwrando ar gerddoriaeth o'r cyfnod. Diolch i bawb am eu hymdrech a'r rhieni am eu cefnogaeth gyda'r gwisgoedd!



